# Agenda - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 6 Rhagfyr 2017

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Llinos Madeley**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddPPIA@cynulliad.cymru

## Cyfarfod preifat cyn y prif gyfarfod

(09:15 - 09:30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09:30)

## 2 Craffu ar Adroddiad Blynyddol Cymwysterau Cymru 2016-17

(09:30 - 10:30) (Tudalennau 1 - 19)

Adroddiad dan embargo hyd nes y'i cyhoeddir ddydd Llun 4 Rhagfyr

Philip Blaker, Prif Weithredwr - Cymwysterau Cymru

Ann Evans, Cadeirydd - Bwrdd Cymwysterau Cymru

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil - Adroddiad Blynyddol Cymwysterau Cymru 2016-17

## Egwyl

(10:30 - 10:45)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

National Assembly for Wales

## 3 Sesiwn graffu ar ddatblygu'r cwricwlwm newydd

(10:45 - 12:00) (Tudalennau 20 - 48)

Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Yr Athro Graham Donaldson, Cadeirydd y Grŵp Cynghori Annibynnol

Steve Davies, Cyfarwyddwr - Addysg, Llywodraeth Cymru

Claire Rowlands, Dirprwy Gyfarwyddwr - Cwricwlwm, Llywodraeth Cymru

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil - Datblygu'r cwricwlwm newydd

CYPE(5)-34-17 - Papur 2 - Papur Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch y Newidiadau i'r cwricwlwm yng Nghymru

## 4 Papurau i'w nodi

(12:00)

### 4.1 Llythyr a nodyn briffio gan Gomisiynydd y Gymraeg ynglŷn â darpariaeth addysg blynyddoedd cynnar a gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg

(Tudalennau 49 - 72)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-34-17 - Papur i'w nodi 1

### 4.2 Llythyr gan y Cadeirydd at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ynghylch Bagloriaeth Cymru

(Tudalennau 73 - 75)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-34-17 - Papur i'w nodi 2 (Saesneg yn unig)

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(12:00)

## 6 Sesiwn graffu ar ddatblygu'r cwricwlwm newydd – trafod y dystiolaeth

(12:00 – 12:10)

## 7 Ymchwiliad i Addysg a Dysgu Proffesiynol Athrawon – ystyried yr adroddiad drafft

(12:10 – 12:40)

## 8 Ymchwiliad i iechyd meddwl amenedigol – ystyried yr ymateb gan Lywodraeth Cymru

(12:40 – 12:50) (Tudalennau 76 – 86)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-34-17 – Papur 4

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 3

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Kirsty Williams AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lynne Neagle AC / AM Cadeirydd / Chair
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

22 Tachwedd 2017

Annwyl Lynne

**Newidiadau i'r cwricwlwm yng Nghymru**

Diolch ichi am fy ngwahodd i gyfarfod o'r Pwyllgor ar 06 Rhagfyr. Rwy'n croesawu'r cyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi ar y cynnydd yr ydym yn ei wneud wrth ddylunio'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd.

Lansiais Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl ym mis Medi, sef ein cynllun gwella addysg newydd sy'n amlinellu sut y bydd y system ysgol yn symud yn ei blaen yn ystod y cyfnod 2017-21 er mwyn gweithredu'r cwricwlwm newydd wedi'i ategu gan bedwar amcan galluogi allweddol: datblygu proffesiwn addysg o ansawdd uchel; arweinwyr sy’n ysbrydoli ac sy’n cydweithio i godi safonau; ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles; trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i ategu system hunanwella.

Mae hefyd yn amlinellu'r amserlenni newydd ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd: bydd ar gael erbyn Ebrill 2019 ar gyfer adborth; bydd fersiwn derfynol yn cael ei chyhoeddi ym mis Ionawr 2020; a bydd yn cael ei ddefnyddio ledled Cymru erbyn mis Medi 2022.

Mae cryn gefnogaeth ymysg athrawon i'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd. Fodd bynnag, roedd pryder ynghylch cyflymder y newid i athrawon a pharatoi ysgolion ar gyfer y cwricwlwm newydd. Mae'r amserlen newydd hon yn rhoi'r sicrwydd mwyaf imi o ran gwireddu'r cwricwlwm newydd, a pharhau i gynnal y momentwm a'r brwdfrydedd dros ddiwygio addysg. Mae'r Ysgolion Arloesi yn parhau i fod yn ganolog i'r broses ddatblygu a'r gwaith a gyflawnwyd mewn cydweithrediad agos â'r consortia rhanbarthol, Estyn, Cymwysterau Cymru ac arbenigwyr eraill yma yng Nghymru ac yn rhyngwladol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Y broses**

Roedd Dyfodol Llwyddiannus yn nodi'n glir bod angen gwerthusiad annibynnol o'r dull o ddatblygu'r cwricwlwm newydd i Gymru. Felly, penodwyd y cwmni Ymchwil Arad gennym i gynnal gwerthusiad ffurfiannol o'r Model Ysgolion Arloesi. Mae hyn yn rhoi adborth amser real inni ar sut yr oedd y model Ysgolion Arloesi yn gweithio'n ymarferol ac yn darparu tystiolaeth ar ba welliannau y gellid eu gwneud. Mae'r gwerthusiad hwn o'r broses wedi edrych ar nifer o themâu allweddol, gan gynnwys: gweithgaredd y gweithgorau; gweithgaredd mewn ysgolion; cyfathrebu a chydlynu; hwyluso a gwneud penderfyniadau; a chefnogaeth i Ysgolion Arloesi.

Mae adborth o'r gwerthusiad parhaus hwn, ynghyd ag adborth gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg diwethaf wedi ein helpu i lunio a gwella'r broses ar gyfer y dyfodol a chymerwyd y camau canlynol dros y 12 mis diwethaf:

- Lluniwyd briff craidd i'r ysgolion. Rhoddodd eglurder i bob ysgol ynghylch y tasgau yr oedd angen iddynt eu cyflawni ar bob cam o'r gwaith; a disgwyliadau clir o ran ymarferwyr ac ysgolion arloesi - gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau;

- Cryfhau rôl y consortia rhanbarthol. Roedd hyn yn cynnwys penodi arweinwyr rhanbarthol ar gyfer pob Maes Dysgu a Phrofiad sy'n gweithio ochr yn ochr â swyddogion Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r cwricwlwm. Mae timau rhanbarthol hefyd wedi'u penodi i hyrwyddo'r broses weithredu ym mhob rhanbarth, gydag ysgolion arloesi yn ogystal ag ysgolion partner. Mae'r gydberchnogaeth hon o ddatblygu'r cwricwlwm newydd yn ein galluogi i sicrhau bod pob ysgol yn cael ei chefnogi ar lefel genedlaethol a rhanbarthol i ddylunio'r cwricwlwm newydd; a

- Rhoi proses gynhwysfawr ar waith i fanteisio ar arbenigedd academaidd i herio a chefnogi'r broses o ddatblygu'r cwricwlwm. Mae ysgolion arloesi ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad wedi cael eu cefnogi gyda'r dystiolaeth a'r arbenigedd cenedlaethol a rhyngwladol diweddaraf. Mae dadansoddiad o anghenion wedi arwain at bob grŵp Maes Dysgu a Phrofiad yn comisiynu arbenigedd penodol ac yn gwahodd siaradwyr arbenigol i ddatblygu'r meddylfryd. Mae prosiect Camau (partneriaeth rhwng Prifysgol Glasgow a'r Drindod Dewi Sant) yn cefnogi gwaith ar ddilyniant ac asesu cwricwlaidd ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad. Mae hyn yn sicrhau bod ein dull o gysoni cynnwys y cwricwlwm a'r trefniadau asesu gyda dilyniant dysgu yn seiliedig ar dystiolaeth. Ar bwyntiau allweddol yn y broses ddatblygu, mae pob grŵp Maes Dysgu a Phrofiad wedi rhannu'r syniadau diweddaraf gyda'r grwpiau arbenigol canlynol er mwyn cael adborth arnynt:

    - Y Grŵp Cwricwlwm ac Asesu;
    - Y Grŵp Cynghori Annibynnol (dan gadeiryddiaeth yr Athro Graham Donaldson);
    - Panel arbenigol y Cyfnod Sylfaen;
    - Y Cyngor Digidol a Dysgu Cenedlaethol; a
    - Y Panel Llythrennedd a Rhifedd.

  Mae'r grwpiau hyn yn rhoi sicrwydd inni ar ansawdd cyffredinol y broses ddatblygu.

- Gweithredu model llywodraethu i sicrhau cydlyniad a chysondeb ar draws yr holl Feysydd Dysgu a Phrofiad. Mae'r holl arweinwyr Meysydd Dysgu a Phrofiad yn cwrdd yn fisol i rannu cynnydd ac i sicrhau methodoleg gyson a chydlynol wrth ddatblygu'r cwricwlwm. Yn y Flwyddyn Newydd, byddwn yn sefydlu Grŵp Cydlyniant ffurfiol i ystyried y cwricwlwm newydd mewn modd cyfannol - gan sicrhau cysondeb rhwng Meysydd Profiad a Dysgu. Bydd y grŵp hefyd yn ystyried maint, graddfa a hydrinedd y cwricwlwm yn gyffredinol.

**Cynnydd: Ionawr - Gorffennaf**

Mae'r rhwydwaith o ysgolion arloesi wedi'i drefnu'n weithgorau ar gyfer pob Maes Dysgu a Phrofiad: Celfyddydau Mynegiannol; Iechyd a Lles; Dyniaethau; Ieithoedd, Llythrennedd a chyfathrebu; Mathemateg a Rhifedd; a Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

Rhwng mis Ionawr a mis Gorffennaf 2017, cyfarfu'r chwe grŵp Meysydd Dysgu a Phrofiad yn fisol i ddatblygu eu cynigion ar gyfer strwythur/sgerbwd cynnar ar gyfer pob Maes Dysgu a Phrofiad. Adroddodd pob un ohonynt yn erbyn yr allbynnau canlynol:

- Sut mae pob Maes Dysgu a Phrofiad yn hyrwyddo'r pedwar diben;
- Cwmpas a ffiniau pob Maes Dysgu a Phrofiad;
- Y ffordd orau o gyflwyno'r gwahanol bynciau cydrannau a / neu linynnau o fewn y Maes Dysgu a Phrofiad; a
- Sylwadau ar y lefelau tybiedig o benodoldeb drwy'r holl Feysydd Dysgu a Phrofiad a'r rhesymeg sy'n sail i hyn.

Yn ystod y cyfnod hwn o waith, mae gweithgorau'r Meysydd Dysgu a Phrofiad wedi:

- Ystyried ystod eang o dystiolaeth ac enghreifftiau o gwricwla rhyngwladol a chael mewnbwn a chyngor arbenigol;
- Pennu cwmpas a strwythur eu Meysydd Dysgu a Phrofiad;
- Cytuno ar strwythur eang ar draws yr holl Feysydd Dysgu a Phrofiad;
- Dechrau datblygu'r Cysyniadau Allweddol sy'n ganolog i'r Meysydd Dysgu a Phrofiad; ac
- Ystyried dilyniant cwricwlaidd yn eu Meysydd Dysgu a Phrofiad.

Mae'r prosiect Camau yn gweithio gyda phob grŵp Maes Dysgu a Phrofiad i ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd o ddilyniant cwricwlaidd. Mae'r prosiect yn ymchwilio i sut y gellid disgrifio a datblygu dilyniant orau mewn perthynas â'r Meysydd Dysgu a Phrofiad ac i ymchwilio i sut y gallai pwyntiau cyfeirio mewn dilyniant gael eu nodi, eu disgrifio a'u defnyddio i gefnogi dysgu.

Cyhoeddwyd chwe chrynodeb gweithredol gennym ym mis Gorffennaf gan ddangos y syniadau diweddaraf gan bob grŵp.

http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/curriculum-for-wales-curriculum-for-life/?lang=cy

**Cynnydd: Medi - Tachwedd**

Mae'r chwe grŵp Maes Dysgu a Phrofiad yn parhau i gwrdd yn fisol ac maent yn gweithio ar yr amcanion canlynol ar gyfer tymor yr hydref. Bydd pob Maes Dysgu a Phrofiad yn:

- Datblygu cysyniadau allweddol cychwynnol ar sail 'Beth sy'n Bwysig' ar gyfer pob Maes Dysgu a Phrofiad; a
- Datblygu esiampl o ddilyniant ar gyfer un o'r cysyniadau allweddol.
- Bydd y gwaith a wneir gan Camau yn cynnwys:
- Ymchwilio a rhannu negeseuon allweddol o fodelau dilyniant rhyngwladol gyda grwpiau Meysydd Dysgu a Phrofiad; a
- Gwaith rhagarweiniol gyda dysgwyr i gasglu tystiolaeth am eu profiadau a'u dealltwriaeth gysyniadol o ddilyniant.

Asesiadau Personol:

- Gan ymateb i'r argymhelliad yn Dyfodol Llwyddiannus i ddatblygu dulliau arloesol, rhyngweithiol o asesu, ac yn unol ag ymrwymiadau Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, mae gwaith yn mynd rhagddo i gynllunio ar gyfer cyflwyno asesiadau personol ymaddasol yn raddol i ddisodli'r profion papur ar gyfer darllen a rhifedd;
- Yr asesiadau rhifedd gweithdrefnol fydd y rhai cyntaf i gael eu cyflwyno yn y flwyddyn academaidd 2018/19, yna'r asesiadau darllen yn 2019/20 a'r asesiadau rhesymu rhifiadol yn 2020/21. Mae dros 300 o ysgolion wedi gwirfoddoli i gymryd rhan yng ngham cyntaf y broses dreialu; a
- Bydd yr asesiadau hyn yn darparu gwybodaeth fanwl am sgiliau darllen a rhifedd dysgwyr unigol a dosbarthiadau cyfan y gall athrawon eu defnyddio i gynllunio'r camau nesaf yn yr addysgu a'r dysgu. Drwy newid i asesiadau ar-lein, gallwn fanteisio ar y dechnoleg ddiweddaraf i ddarparu profiad asesu unigol gyda lefel o her sydd wedi'i theilwra ar gyfer pob dysgwr.

**Cyfathrebu ac Ymgysylltu**

Mae gennym raglen ddiwygio uchelgeisiol ac rydym yn ymwybodol nad ydym am lethu'r gweithlu gyda gwybodaeth, ond ar yr un pryd mae angen inni roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am gynnydd fel nad ydynt yn teimlo eu bod yn y tywyllwch. Mae'n werth nodi ein bod yn dal i ddatblygu'r cwricwlwm newydd, rydym ar ganol proses a bydd adegau pan na fydd llawer i'w ddweud.

Fodd bynnag, bu cyfathrebu cyson a rheolaidd am gynnydd, gan gynnwys cyflwyno'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol, drwy ohebiaeth gan Lywodraeth Cymru, yn ogystal â thrwy sianeli cyfathrebu'r consortia rhanbarthol.  Mae sianeli Llywodraeth Cymru yn cynnwys:

- Cylchlythyr ar ddiwygio'r cwricwlwm, a gaiff ei ddosbarthu i bob grŵp rhanddeiliaid o leiaf unwaith y tymor;

- Blog Cwricwlwm i Gymru, sy'n cynnwys diweddariadau, adroddiadau cynnydd a safbwyntiau ysgolion, fel arfer ar gyfradd o un erthygl newydd yr wythnos.  Eisoes eleni mae'r blog wedi cael dros 16,000 o ymwelwyr sydd wedi edrych ar dros 24,000 o dudalennau;

- Y cylchlythyr Dysg i ysgolion, sy'n cynnwys cylchlythyr rhanddeiliaid a chysylltiadau i eitemau blog, er mwyn annog cynulleidfa ehangach yr ysgol i edrych ar gynnydd.

Ategir hyn gan gynnwys craidd ar wefan Llywodraeth Cymru a gweithgaredd helaeth yn y cyfryngau cymdeithasol.

Caiff hyn ei ategu gan gynadleddau o leiaf unwaith y flwyddyn ar gyfer Penaethiaid a Dirprwy Benaethiaid, ar bynciau sy'n cynnwys diwygio'r cwricwlwm a diwygio addysg yn ehangach.  Ar hyn o bryd rydym yn cynnal cylch o gynadleddau rhanbarthol ar y cyd â chonsortia a fydd yn canolbwyntio ar ddatblygu a pharatoi ar gyfer y cwricwlwm newydd.

Cynhelir gweithgaredd ymgysylltu yn bennaf drwy gonsortia rhanbarthol a'r Rhwydwaith ysgolion arloesi. Mae gan y ddau gylch gorchwyl i rannu diweddariadau a datblygiadau yn eu rhanbarthau a'u hardal leol ac i gynnwys eu hysgolion partner yn y broses o ddylunio'r cwricwlwm.

Mae gan Estyn rôl allweddol hefyd - er enghraifft, mae wedi cynnal ymgyrch i chwalu'r mythau ynghylch y Fframwaith Cymhwysedd Digidol.

**Datblygu'r agenda iechyd meddwl yn y cwricwlwm a'i chysoni â'r Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc**

Un o bedwar diben y cwricwlwm newydd yw cefnogi plant a phobl ifanc i ddod yn unigolion iach a hyderus. Mae'r pedwar diben wrth wraidd y cwricwlwm newydd a dyma'r man cychwyn ar gyfer pob penderfyniad sy'n ymwneud â'r datblygiad.  Felly, mae lles meddyliol ac emosiynol dysgwyr yn cael ei ystyried ar draws yr holl Feysydd Dysgu a Phrofiad.

Bydd y Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles yn defnyddio pynciau a themâu yn ymwneud â lles meddyliol, corfforol ac emosiynol.  Er mwyn llywio a chefnogi'r broses o ddatblygu'r cwricwlwm, mae arloeswyr wedi derbyn tystiolaeth gan ystod o arbenigwyr ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad.  Roedd y rhain yn cynnwys: Iechyd Cyhoeddus Cymru; Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru; y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion ac Emma Renold, Athro Astudiaethau Plentyndod ym Mhrifysgol Caerdydd.  Wrth i ddatblygiad y Maes Dysgu a Phrofiad fynd rhagddo, bydd yr arloeswyr yn ystyried tystiolaeth mewn seicoleg a niwrowyddoniaeth i gefnogi datblygiad y Maes Dysgu a Phrofiad mewn perthynas ag iechyd meddwl.  Mae'r arloeswyr yn cydnabod pwysigrwydd datblygu Maes Dysgu a Phrofiad sy'n cefnogi dysgwyr i ymgysylltu â'u lles meddyliol ac emosiynol eu hunain, yn ogystal â deall y dylanwadau ehangach ar iechyd a lles a'r materion y mae'r rhain yn eu codi yng nghyd-destun unigolion a chymdeithas gyfan.

O fewn Llywodraeth Cymru, mae swyddogion wedi sefydlu mecanwaith ar gyfer ymgysylltu sy'n cwmpasu'r ystod o ddiddordebau ar draws y meysydd iechyd a gofal cymdeithasol. Byddaf fi, ynghyd â'r Gweinidog dros Blant a Gofal Cymdeithasol a'r Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn parhau i gydweithio i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i wella iechyd a lles plant drwy ddatblygu'r cwricwlwm newydd.

Bydd arloeswyr hefyd yn ystyried sut y mae amgylchedd yr ysgol yn cefnogi iechyd a lles cymdeithasol, emosiynol, ysbrydol a chorfforol plant a phobl ifanc. Er bod y cwricwlwm newydd yn allweddol, mae datblygu iechyd a lles cadarnhaol ymysg dysgwyr yn fater ehangach, sy'n ddibynnol iawn ar ddull gweithredu ysgol gyfan. Yn hynny o beth, rhan o waith yr Arloeswyr yn y Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles fydd nodi goblygiadau'r Maes Dysgu a Phrofiad a'r materion iechyd a lles ehangach i'r ysgol gyfan.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cydlynu i sicrhau bod yr Arloeswyr yn ymwybodol o'r Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc a sut y gall hyn lywio datblygiad y Maes Dysgu a Phrofiad.

Un o'r amcanion galluogi allweddol yn Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl yw 'ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles'. Mae'r amcan galluogi hwn yn nodi sut y byddwn yn sicrhau:

- Y cefnogir pob plentyn a pherson ifanc i fod yn barod i ddysgu, yn gorfforol ac yn emosiynol, a bod ganddynt amgylchedd diogel i wneud hynny;

- Bod tair haen y system yn ystyried yr heriau unigryw y mae unigolion neu grwpiau o ddysgwyr yn eu hwynebu ac yn ymateb i'r heriau hynny; a

- Gwaith partneriaeth cryfach i wella profiadau plant yn ystod plentyndod cynnar a sicrhau dealltwriaeth eang o bwysigrwydd y mil o ddiwrnodau cyntaf ym mywyd plentyn.

Yours sincerely

**Kirsty Williams AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

01/04



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Llinos Madeley
Clerc
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

27 Tachwedd 2017

Annwyl Glerc,

**Nodyn briffio ar ofal plant ac addysg gynnar cyfrwng Cymraeg.**

Mae Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru yn tynnu sylw at bwysigrwydd y blynyddoedd cynnar i wireddu'r nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Gyda hynny mewn golwg cyflwynais y nodyn briffio hwn ar ofal plant ac addysg gynnar cyfrwng Cymraeg i sylw Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg fel cyngor ysgrifenedig o dan Adran 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae'r nodyn briffio yn trafod pwysigrwydd y sector gofal plant ac addysg gynnar o ran creu siaradwyr Cymraeg rhugl sy'n debygol o ddefnyddio'r iaith yn y dyfodol. Mae'r nodyn yn trafod y sefyllfa gyfredol o ran gofal plant yng Nghymru, ac yn amlinellu'r sefyllfa o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn benodol. Trafodir y cyd-destun polisi, yn enwedig ymrwymiad y Llywodraeth i gynnig 30 awr o ofal plant am ddim i bob plentyn 3-4 sydd a'u rhieni mewn gwaith, a gweledigaeth y Llywodraeth i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Casgliad y nodyn yw bod potensial arwyddocaol i integreiddio amcanion y polisïau uchod. Pan fydd y 'Cynnig 30 Awr' yn dwyn ffrwyth, bydd yn arwain at gynnydd mawr yn y galw am ofal plant ledled Cymru, ac yn sgil hynny yn cynnig cyfle amserol i gymryd camau breision er mwyn sicrhau bod miliwn o siaradwyr

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Cymraeg erbyn 2050. Er mwyn gwireddu'r potensial yma, fodd bynnag, mae amryw o argymhellion y dylid eu hystyried:

- Mae angen i'r Llywodraeth osod ystyriaethau am yr iaith Gymraeg a'i gweledigaeth ar gyfer 2050 yng nghanol y broses o gynllunio, ariannu a gweithredu ei chynlluniau ynglŷn â gofal plant ac addysg gynnar. Er bod cynlluniau ac ymrwymiadau cyffredinol yn cael eu hamlinellu yn rhaglen waith 2017-2021 Cymraeg 2050, nid oes cynlluniau pendant a materol ynglŷn â'r ffordd ymlaen ac mae peryg y bydd cyfle euraidd yn cael ei golli i gymryd camau hynod arwyddocaol o ran dyfodol yr iaith Gymraeg.

- Dylai'r Llywodraeth ddefnyddio Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSCAau) fel fframwaith ar gyfer cydlynu gweithredoedd y Llywodraeth, Awdurdodau Lleol, a darparwyr gofal plant. Byddai cynnwys deilliant penodol yn y CSCAau ar gyfer twf yn y sector gofal plant ym mhob ardal yn ffordd o sicrhau bod strategaethau lleol gofal plant yn cyd-fynd â dyheadau a thargedau cenedlaethol y llywodraeth o ran darpariaeth Cymraeg. Byddai twf yn y sector yma yn cyfrannu'n arwyddocaol at gynyddu niferoedd ar draws y sector addysg cyfrwng Cymraeg yn y tymor hir.

- Er mwyn llunio strategaethau cenedlaethol a lleol effeithiol, ac er mwyn gwerthuso effaith a llwyddiant y strategaethau hyn yn y dyfodol, mae'n hanfodol cael data dilys a dibynadwy. Mae angen i'r Llywodraeth arwain y gwaith o ddiwygio'r ffyrdd o gasglu a rhannu data am ofal plant, er mwyn sicrhau bod cynlluniau a strategaethau lleol a chenedlaethol wedi'u llunio ar sail gwybodaeth y gellid ymddiried ynddo.

Hyderaf bydd y nodyn a'r argymhellion uchod o ddiddordeb i chi, a gofynnaf yn garedig i chi rannu'r nodyn ag aelodau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Yn gywir

Meri Huws

**Meri Huws**
Comisiynydd y Gymraeg

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Nodyn Briffio:

# Darpariaeth Gofal Plant ac Addysg Blynyddoedd Cynnar Cyfrwng Cymraeg

**Awdur:** Hywel Iorwerth

**Dyddiad:** 22/11/2017

# Comisiynydd y Gymraeg

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hynny drwy ddwyn sylw i'r ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Bydd dwy egwyddor yn sail i'r gwaith:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- Dylai pobl yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny

Comisiynydd y Gymraeg

Siambrau'r Farchnad

5 – 7 Heol Eglwys Fair

Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221

post@comisiynyddygymraeg.cymru

Croesawir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg


**comisiynyddygymraeg.cymru**


@ComyGymraeg

## Ffeithiau allweddol

**Mae cynyddu nifer y plant sy'n cael gofal ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn allweddol er mwyn gwireddu gweledigaeth y llywodraeth o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.**

51% o holl siaradwyr Cymraeg wedi dysgu'r iaith yn yr ysgol: 11% yn yr ysgol feithrin, 25% yn yr ysgol gynradd, a 15% yn yr ysgol uwchradd.






80% o siaradwyr Cymraeg 3-15 wedi dysgu'r iaith yn yr ysgol: 22% yn yr ysgol feithrin, 46% yn yr ysgol gynradd, 12% yn yr ysgol uwchradd.

25% o'r rhai a ddysgodd y Gymraeg yn yr ysgol gynradd yn rhugl.



50% o'r rhai a ddysgodd y Gymraeg yn yr ysgol feithrin yn rhugl.

**Saesneg yw prif iaith 77% o ddarparwyr gofal plant, gyda 13% yn Gymraeg, a 10% yn ddwyieithog***




**Mae'r cyfnod 0-5 oed yn oedran pan fydd caffael iaith yn digwydd yn gyflym a naturiol, ac mae ymchwil yn dangos fod cynifer â 80-85% o'r plant sydd mewn gofal cyn-statudol cyfrwng Cymraeg yn trosglwyddo i addysg Gynradd cyfrwng Cymraeg.**

*Yn seiliedig ar ddata diweddaraf yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) 2017

# Crynodeb gweithredol ac argymhellion

**Mae'r papur hwn yn trafod y sefyllfa gyfredol o ran gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg. Dyma'r prif ganfyddiadau:**

- **Mae dysgu'r Gymraeg cyn gynted â phosibl ym mywydau plant a phobl ifanc yn allweddol er mwyn cynhyrchu siaradwyr Cymraeg rhugl sy'n debygol o ddefnyddio'r iaith a'i throsglwyddo i'r genhedlaeth nesaf. Mae gan y sector gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar rôl hynod arwyddocaol yn y cyd-destun hwn.**

- **Gall twf yn nifer y plant ifanc sy'n cael gofal ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg fod yn allweddol i wireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.**

- **Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnig 30 awr o ofal plant am ddim i bob plentyn 3-4 oed sydd â'u rhieni mewn gwaith llawn amser. Os bydd y cynnig hwn yn dwyn ffrwyth, bydd cynnydd sylweddol yn y galw am ofal plant ar draws Cymru, ac yn sgil hyn mae cyfle amserol i gynyddu'r niferoedd sy'n derbyn gofal plant cyfrwng Cymraeg.**

- **Er bod Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o bwysigrwydd gofal plant i ddyfodol yr iaith, nid oes cynlluniau pendant a chadarn ynglŷn â sut y bwriedir integreiddio'r Cynllun 30 Awr a'r weledigaeth 2050. Nid yw'n eglur sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu troi ymrwymiadau cyffredinol i gynyddu'r ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg yn weithredoedd penodol fydd a thraweffaith ar lawr gwlad.**

- **Mae gan Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGAau) botensial arwyddocaol i droi ymrwymiadau eang a chyffredinol yn weithredoedd a thargedau penodol.**

- **Byddai'r CSGAau yn gallu bod yn fframwaith effeithiol i gydlynu gweithredoedd Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, a darparwyr gofal plant, er mwyn sicrhau bod cynnydd sylweddol yn y niferoedd sy'n derbyn gofal plant cyfrwng Cymraeg ac yn trosglwyddo i addysg cyfrwng Cymraeg ar ôl hynny.**

- **Mae llunio a gwerthuso strategaethau cenedlaethol a lleol ar gyfer cynyddu niferoedd sy'n derbyn gofal plant drwy gyfrwng Cymraeg yn dibynnu ar fodolaeth data a gwybodaeth ddibynadwy.**

- **Mae'r data sy'n bodoli ar ofal plant cyfrwng Cymraeg yng Nghymru yn dameidiog, yn anghyson, ac yn gymhleth i'w ddehongli. Nid oes sail wybodaeth gadarn yn bodoli ar hyn o bryd, ac mae perygl y bydd y diffyg hwn yn tanseilio'r potensial sydd o ddiwygio'r sector gofal plant cyfrwng Cymraeg yng Nghymru, ac yn sgil hynny y gallu i gymryd camau breision tuag at wireddu gweledigaeth o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.**

**Ar sail y canfyddiadau hyn, argymhellwn:**

- **Bod angen i Lywodraeth Cymru osod ystyriaethau am yr iaith Gymraeg a'i gweledigaeth ar gyfer 2050 yng nghanol y broses o gynllunio, ariannu a gweithredu ei chynlluniau ynglŷn â gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar. Er bod cynlluniau ac ymrwymiadau cyffredinol yn cael eu hamlinellu yn rhaglen waith 2017-2021 Cymraeg 2050, nid oes cynlluniau pendant a phenodol ynglŷn â'r ffordd ymlaen ac mae perygl y bydd cyfle euraidd yn cael ei golli i gymryd camau hynod arwyddocaol o ran dyfodol yr iaith Gymraeg.**

- **Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSCAau) yn fframwaith ar gyfer cydlynu gweithredoedd y Llywodraeth, awdurdodau lleol, a darparwyr gofal plant. Byddai cynnwys deilliant penodol yn y CSCAau ar gyfer twf yn y sector gofal plant ym mhob ardal yn ffordd o sicrhau bod strategaethau lleol gofal plant yn cyd-fynd â dyheadau a thargedau cenedlaethol y llywodraeth o ran darpariaeth Cymraeg. Byddai twf yn y sector hwn yn cyfrannu'n arwyddocaol at gynyddu niferoedd ar draws y sector addysg cyfrwng Cymraeg yn y tymor hir.**

- **Er mwyn llunio strategaethau cenedlaethol a lleol effeithiol, ac er mwyn gwerthuso effaith a llwyddiant y strategaethau hyn yn y dyfodol, mae'n hanfodol cael data dilys a dibynadwy. Mae angen i Lywodraeth Cymru arwain y gwaith o ddiwygio'r dulliau o gasglu a rhannu data am ofal plant, er mwyn sicrhau bod cynlluniau a strategaethau lleol a chenedlaethol wedi'u llunio ar sail gwybodaeth y gellid ymddiried ynddi.**

# 1. Cyd-destun: Gofal plant a strategaeth Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr

Mae tystiolaeth yn dangos mai yn yr ysgol y mae'r mwyafrif o blant a phobl ifanc yn dueddol o ddysgu'r Gymraeg heddiw.[1] Mae ymchwil a gomisiynwyd ar y cyd gan Gomisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru yn dangos fod tua 80% o siaradwyr Cymraeg 3-15 oed wedi dysgu'r iaith yn yr ysgol. Mae hyn yn cymharu a 51% o siaradwyr Cymraeg bob oed a ddysgodd yr iaith yn yr ysgol. Yn anffodus, nid yw cyfraddau rhuglder y bobl sydd wedi dysgu'r iaith yn yr ysgol mor uchel ag ydyw ymysg y rheini wnaeth ddysgu'r Gymraeg ar yr aelwyd. Er enghraifft, tra bod 80% o'r rhai a ddysgodd y Gymraeg ar yr aelwyd yn rhugl, dim ond 25% o'r rhai a ddysgodd y Gymraeg yn yr ysgol gynradd sy'n rhugl. Mae cyfradd rhuglder y rhai a ddysgodd yr iaith yn yr ysgol uwchradd yn is (11%) tra bod cyfradd rhuglder y rhai a ddysgodd y Gymraeg yn yr ysgol feithrin yn llawer uwch (50%). Mae'r ymchwil yn profi fod cydberthynas rhwng pryd a lle mae unigolyn yn caffael neu ddysgu'r Gymraeg a pha mor rhugl a pharod i ddefnyddio'r iaith fydd yr unigolion hynny.

Mae'r ffeithiau uchod yn hynod o arwyddocaol yng nghyd-destun strategaeth uchelgeisiol Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Nid yn unig maent yn pwysleisio pwysigrwydd y system addysg o ran creu siaradwyr Cymraeg newydd, ond pwysleisir hefyd fod dysgu'r Gymraeg o'r cychwyn cyntaf o fewn y gyfundrefn addysg yn allweddol er mwyn cynhyrchu siaradwyr Cymraeg rhugl sydd am ddefnyddio'r iaith ac o bosibl ei throsglwyddo i'r genhedlaeth nesaf. Mae'r cyfnod 0-5 oed yn oedran pan fydd caffael iaith yn digwydd yn gyflym a naturiol, ac mae ymchwil yn dangos fod cynifer â 80-85% o'r plant sydd mewn gofal cyn-statudol cyfrwng Cymraeg yn trosglwyddo i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg.[2]

I grynhoi, mae twf yn y nifer sy'n derbyn darpariaeth cyn-statudol cyfrwng Cymraeg yn debygol o gynyddu'r nifer sydd mewn addysg statudol cyfrwng Cymraeg, ac yn ei dro'r niferoedd sy'n defnyddio'r Gymraeg yn rhugl yn y gymdeithas. Nid yw'n syndod felly fod amryw o gyrff a rhanddeiliaid allweddol yn dod yn gynyddol ymwybodol o bwysigrwydd y cyfnod cyn-statudol fel dechrau'r daith i wireddu targed Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.[3]


---

[1] Am drosolwg manylach o'r data gweler: Comisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru*, Y Defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru, 2013-15* (2015); Comisiynydd y Gymraeg, *Sefyllfa'r Iaith Gymraeg 2012-2015: Adroddiad 5-mlynedd Comisiynydd y Gymraeg* (2015).
[2] Data ar gyfer 2015-16 a ddarparwyd yn uniongyrchol gan y Mudiad Meithrin.
[3] Comisiynydd y Gymraeg, *Sefyllfa'r Iaith Gymraeg 2012-2015: Adroddiad 5-mlynedd Comisiynydd y Gymraeg* (2015); Trafodaethau uniongyrchol gyda'r Mudiad Meithrin; Llywodraeth Cymru, *Adolygiad Brys o Gynlluniau Strategol y Gymraeg Mewn Addysg, 2017-20 gan Aled Roberts* (Awst 2017); Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, *Ymchwiliad i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg* (CSCAau) (Rhagfyr, 2015).

# 2. Y sefyllfa gyfredol

## 2.1. Gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar yng Nghymru

**Ffigur 1:** Amserlen ac eglurhad o'r cyfnodau allweddol:




Ar wahân i'r ddarpariaeth addysg blynyddoedd cynnar ran-amser, nid yw'r cyfnod cyn-statudol o dan reolaeth uniongyrchol Llywodraeth Cymru, ac mae'n cael ei ddarparu gan ystod eang o unigolion, cwmnïau a mudiadau gwirfoddol a phreifat. Mae'r ddarpariaeth hon yn cynnwys amrywiaeth o warchodwyr plant (llawn amser/rhan-amser), gofal dydd amser llawn (er enghraifft mewn meithrinfeydd), gofal dydd sesiynol bore neu brynhawn (darpariaeth sylweddol y Mudiad Meithrin yw'r enghraifft amlycaf cyfrwng Cymraeg), creche, nani, a mathau o ddarpariaeth chwarae mynediad agored.

Mae'r tirlun gofal plant cyn-statudol wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, yn rhannol oherwydd bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cynigion addysg blynyddoedd cynnar a gofal plant am ddim, er enghraifft prosiect Dechrau'n Deg ac yn fwy diweddar y Cynnig 30 awr (mwy am hyn yn 3.1 isod). Mae darparwyr wedi gorfod addasu i'r newidiadau hyn drwy gynnig darpariaeth fwy hyblyg sy'n cyd-

fynd â chynigion a phrosiectau Llywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses o beilota'r Cynnig 30 Awr mae adran Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth wedi cyhoeddi adroddiad yn amlinellu'r sefyllfa gyfredol o ran capasiti gofal plant yng Nghymru.[4] Dyma rai ffeithiau allweddol yr adroddiad:

- Yn ôl amcangyfrifon presennol mae tua 175,000 o blant 0-4 oed yng Nghymru.
- Mae 4,025 o ddarparwyr gofal plant yng Nghymru, sydd yn cynnig tua 80,000 o leoedd i blant.
- Mae tua 2,000 o warchodwyr plant sydd yn cynnig tua 15,000 o leoedd.
- Mae tua 700 o ddarparwyr gofal dydd llawn sydd yn cynnig tua 30,000 o leoedd.
- Mae tua 1,200 o ddarparwyr rhan amser, sydd yn cynnig tua 35,000 o leoedd.
- Nid oedd unrhyw wybodaeth am ystod darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr adroddiad hwn.

Er nad yw gofal plant dan reolaeth uniongyrchol Llywodraeth Cymru mae Deddf Gofal Plant 2006 yn nodi dyletswyddau awdurdodau lleol fel arweinwyr strategol wrth ddarparu gofal plant yn lleol.[5] Mae dyletswydd ddeddfwriaethol ar awdurdodau lleol i asesu a chynllunio darpariaeth gofal plant er mwyn sicrhau argaeledd ac ansawdd. Mae gofyn i awdurdodau lleol fonitro ac asesu'r ddarpariaeth drwy'r Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant (ceir rhagor am hyn yn 2.2. a 3.3 isod).

## 2.2. Y Gymraeg mewn gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar

Fel rhan o'u dyletswydd ehangach i fonitro ac asesu darpariaeth gofal plant, mae gofyn i awdurdodau lleol ystyried a chynllunio ar gyfer gofal plant cyfrwng Cymraeg yn benodol. Mae cynllun gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar Llywodraeth Cymru yn pwysleisio manteision dwyieithrwydd i blant, ac yn nodi nifer o gamau gweithredu i gefnogi hyn.[6] Yn gyntaf, drwy'r Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant (ADGPau), mae gofyn i awdurdodau lleol fonitro a llenwi'r bylchau, sicrhau cynaliadwyedd a gwella ansawdd a swm y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn yr ardal.[7] Maent hefyd yn gweithio gyda'r Mudiad Meithrin a darparwyr eraill drwy amrywiaeth o grantiau er mwyn cyrraedd yr amcanion uchod.

Yn ôl adroddiad diweddar Llywodraeth Cymru[8] mae tua 175,000 o blant 0-4 oed yng Nghymru. Yn anffodus, nid oes data cyflawn a dibynadwy am faint o'r plant hyn sydd mewn gofal plant, ac mewn gofal plant cyfrwng Cymraeg yn benodol (mwy o fanylder ar hyn yn 3.3 isod). Y brif ffynhonnell wybodaeth am y sector yma yw data sy'n cael eu casglu gan Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Mae gofyn i bob gwasanaeth gofal plant sydd wedi ei gofrestru â'r AGGCC lenwi

[4] Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth, *Y Capasiti gofal plant yng Nghymru* (Hydref 2017). Roedd yr adroddiad hwn yn ganlyniad i gydweithio rhwng Llywodraeth Cymru, yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD).
[5] Deddf Gofal Plant (2006) - http://www.legislation.gov.uk/wsi/2016/88/pdfs/wsi_20160088_mi.pdf
[6] Llywodraeth Cymru, *Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant* (2013).
[7] Llywodraeth Cymru, *Canllawiau Statudol Gofal Plant* (2016).
[8] Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth, *Y Capasiti gofal plant yng Nghymru* (Hydref 2017).

Datganiad Hunanasesu'r Gwasanaeth (HAG), sy'n cynnwys cwestiynau am iaith y ddarpariaeth. Un broblem â'r ffynhonnell hon yw nad yw pob darparwr yn cwblhau'r hunanasesiad. Er enghraifft, yn 2016, dim ond 76% o'r sector wnaeth gwblhau'r hunanasesiad, ac felly darlun anghyflawn sydd ar gael. Yr ail broblem sylfaenol yw mai'r darparwyr gofal plant sy'n gyfrifol am asesu cyfrwng iaith. Mae'n anorfod bod rhywfaint o anghysondeb a chamddehongli yn digwydd yma o ran diffinio cyfrwng iaith sy'n effeithio ar ddibynadwyedd a dilysrwydd y data.


Mae'r data hyn gan AGGCC yn chwarae rhan allweddol yn ffurfio sail tystiolaeth ar gyfer sicrhau digonolrwydd darpariaeth awdurdodau lleol (yr ADGPau). Er bod mwyafrif yr awdurdodau lleol yn defnyddio data AGGCC ar gyfer eu hasesiadau, mae'r mwyafrif hefyd yn defnyddio data lleol er mwyn ategu'r wybodaeth hon. Canlyniad hyn yw bod y data sy'n cael ei adrodd yn adroddiadau'r awdurdodau lleol yn wahanol i ddata AGGCC, ac mae'r ffyrdd y mae awdurdodau lleol yn casglu a defnyddio'r data yn amrywio yn sylweddol. O ganlyniad, mae'r darlun cenedlaethol a lleol o ofal plant cyfrwng Cymraeg yng Nghymru yn dameidiog, yn anghyson, ac yn gymhleth i'w ddehongli. Er hyn, gall y data sy'n bodoli gynnig ciplun defnyddiol o batrymau cyffredinol sefyllfa gofal plant cyfrwng Cymraeg yng Nghymru heddiw:

**Ffigur 2:** Prif iaith y ddarpariaeth mewn niferoedd a chanrannau ym mhob awdurdod lleol, yn ôl data'r AGGCC yn seiliedig ar ddata o'r HAG (25 Medi 2017)[9].


| Awdurdod Lleol | Cymraeg | | Saesneg | | Y Ddwy Iaith | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymru Gyfan** | **500** | **13%** | **2993** | **77%** | **389** | **10%** |
| **Abertawe** | 7 | 3% | 205 | 93% | 9 | 4% |
| **Blaenau Gwent** | 2 | 3% | 62 | 94% | 2 | 3% |
| **Bro Morgannwg** | 9 | 4% | 207 | 93% | 6 | 3% |
| **Caerdydd** | 28 | 6% | 390 | 88% | 24 | 5% |
| **Caerffili** | 20 | 8% | 214 | 87% | 13 | 5% |
| **Castell-nedd Port Talbot** | 5 | 3% | 138 | 93% | 6 | 4% |
| **Casnewydd** | 2 | 1% | 158 | 96% | 4 | 2% |
| **Ceredigion** | 46 | 41% | 30 | 27% | 35 | 32% |
| **Conwy** | 27 | 19% | 94 | 68% | 18 | 13% |
| **Gwynedd** | 129 | 64% | 19 | 9% | 55 | 27% |
| **Merthyr Tudful** | 3 | 7% | 38 | 84% | 4 | 9% |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 8 | 5% | 135 | 92% | 4 | 3% |
| **Powys** | 22 | 11% | 160 | 82% | 12 | 6% |
| **Rhondda Cynon Taf** | 18 | 7% | 221 | 88% | 13 | 5% |
| **Sir Benfro** | 19 | 13% | 121 | 82% | 7 | 5% |
| **Sir Ddinbych** | 24 | 17% | 92 | 67% | 22 | 16% |
| **Sir Gaerfyrddin** | 76 | 35% | 66 | 30% | 78 | 35% |
| **Sir y Fflint** | 9 | 4% | 221 | 91% | 14 | 6% |
| **Sir Fynwy** | 1 | 1% | 121 | 98% | 1 | 1% |
| **Torfaen** | 3 | 3% | 89 | 94% | 3 | 3% |
| **Wrecsam** | 11 | 5% | 178 | 88% | 13 | 6% |
| **Ynys Môn** | 31 | 28% | 34 | 31% | 46 | 41% |

[9] Mae'n debyg fod y ffigurau yma ychydig yn wahanol i'r rhai yn adroddiad fwyaf diweddar y Llywodraeth oherwydd nad oes gwybodaeth am iaith pob darpariaeth.

**Ffigur 3:** Prif iaith y ddarpariaeth mewn canrannau ym mhob awdurdod lleol, yn ôl data'r AGGCC yn seiliedig ar ddata o'r HAG (25 Medi 2017).



**Ffigur 4:** Iaith y ddarpariaeth mewn 13 awdurdod lleol yn ôl data a gasglwyd gan y Comisiynydd o ADGPau awdurdodau lleol 2017-2022.




Mae'r data hwn yn dangos darlun lled wahanol o ran sefyllfa darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg o'i gymharu â ffigur 3. Bydd arwyddocâd y gwahaniaethau hyn yn cael eu trafod yn 3.3. isod.

# 3. Cynllunio strategol ar gyfer gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi pwysigrwydd ehangu darpariaeth gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg er mwyn cyflawni'r targed o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Bydd amryw o ffactorau yn effeithio ar lwyddiant y weledigaeth honno:

## 3.1. Strategaeth genedlaethol ac integreiddio polisïau'r Llywodraeth

**Mae angen i Lywodraeth Cymru osod ystyriaethau am yr iaith Gymraeg a'i gweledigaeth ar gyfer 2050 yng nghanol y broses o gynllunio, ariannu a gweithredu eu cynlluniau ynglŷn â gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar. Heb gynlluniau pendant a phenodol ynglŷn â'r ffordd ymlaen, mae'n debyg y bydd cyfle euraidd yn cael ei golli i gymryd camau hynod arwyddocaol o ran dyfodol yr iaith Gymraeg.**

Mae targed cenedlaethol wedi'i osod i ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg gofal plant drwy greu 150 o grwpiau meithrin ychwanegol dros y degawd nesaf.[10] Yn ei rhaglen waith 2017-2021 Cymraeg 2050, mae Llywodraeth Cymru yn nodi ei bod am 'gefnogi'r gwaith o ehangu sector Cymraeg y blynyddoedd cynnar drwy greu 40 grŵp meithrin newydd erbyn 2021'.[11] Mae hefyd yn nodi ei bod am weithredu'r cynnig 30 awr o ofal plant am ddim ar draws Cymru, a sicrhau mwy o leoliadau cyfrwng Cymraeg dan nawdd y Llywodraeth. Y tu hwnt i'r ymrwymiad cyffredinol hwn i gefnogi ac ariannu, nid yw eto'n eglur sut yn union y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithredu, a pha fframwaith fydd yn cael ei ddefnyddio er mwyn gyrru'r gwaith hwn yn ei flaen.

### Polisïau gofal plant Llywodraeth Cymru

Mae'r prosiect Dechrau'n Deg wedi'i dargedu at blant o dan 4 oed sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig yng Nghymru. Un rhan o'r prosiect yw cynnig darpariaeth gofal plant rhan-amser am ddim i blant 2-3 oed. Er bod disgwyliadau ar awdurdodau lleol i gynnig darpariaeth gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg, mae ystadegau'n dangos mai dim ond tua 7% o'r rhai a oedd yn gymwys a ofynnodd am ofal plant drwy'r Gymraeg, sy'n llawer is na'r ganran o blant sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghymru.[12] Mae'n deg dweud bod lle i wella o ran integreiddio

[10] Llywodraeth Cymru, *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr (*2017), t. 12.
[11] Llywodraeth Cymru, *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr- Rhaglen Waith 2017-21* (2017), *t.10.*
[12] Arad, *Y Ddarpariaeth Gofal Cyfrwng Cymraeg ar Gyfer Plant Cyn Oed Ysgol* (Mawrth, 2017).

amcanion y prosiect hwn â'r dyhead i gynyddu'r niferoedd mewn gofal plant cyfrwng Cymraeg.[13]

Mae Cynnig 30 Awr Llywodraeth Cymru yn gynnig mwy pellgyrhaeddol na Dechrau'n Deg o ran gofal plant. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i gynnig 30 awr yr wythnos o ofal plant am ddim i rieni sy'n gweithio ac sydd â phlant sy'n dair neu bedair oed. Bydd y gofal plant yn cael ei gynnig am 48 wythnos y flwyddyn. Mae'r Cynnig 30 Awr yn gyfuniad o amser addysg blynyddoedd cynnar (Cyfnod Sylfaen Meithrin) a gofal plant. Yn ystod y tymor ysgol (39 wythnos), mae plant sy'n 3 oed cyn mis Medi yn cael o leiaf 10 awr o addysg gynnar yr wythnos. Bydd y Cynnig 30 Awr yn cynnwys 20 awr ychwanegol o ofal plant ar ben yr addysg gynnar hon, a hefyd yn cynnig 30 awr o ofal y tu allan i dymor ysgol (hyd at 48 wythnos mewn cyfanswm).[14] Mae'r Llywodraeth yn peilota'r cynllun hwn mewn 7 awdurdod lleol sy'n cynnwys ardaloedd penodol yn Ynys Môn, Gwynedd, Blaenau Gwent, Caerffili, Sir y Fflint, Rhondda Cynon Taf, ac Abertawe.

Mae manylion llawn y Cynnig 30 Awr yn parhau i gael eu datblygu, ac yn debygol o gael eu haddasu yn sgil y cynllun peilot. Ond os bydd y cynllun cyflawn yn dwyn ffrwyth, byddai'n arwain at gynnydd mawr yn y galw am ofal plant ffurfiol ledled Cymru, ac yn sgil hynny yn cynnig cyfle amserol i gymryd camau breision er mwyn gwireddu gweledigaeth 2050. Er bod y cynnig hwn yn gyfle cadarnhaol i wella sefyllfa'r iaith, mae'n debyg o ddwysáu'r heriau sydd ynghlwm â darparu gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae adroddiad diweddar adran Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru[15] wedi'i gomisiynu â'r bwriad o fapio'r ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru yn erbyn y galw posibl amdano yn sgil y Cynnig 30 Awr. Mae'r adroddiad yn gynhwysfawr ac yn cynnig ystod eang o ddata sydd yn darparu gwybodaeth hynod bwysig o ran cynllunio strategol ar gyfer y Cynnig 30 awr. O ystyried fod Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio pwysigrwydd gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar i weledigaeth 2050 mae'n syndod nad yw'r adroddiad yn crybwyll darpariaeth cyfrwng Cymraeg o gwbl. Er hyn, dyma rai ffeithiau allweddol o'r adroddiad sy'n amlinellu argaeledd gofal plant yng Nghymru yng nghyd destun y galw sydd yn debygol o godi yn sgil y Cynnig 30 Awr.

- Mae 175,000 o blant 0-4 oed ac mae tua 80,000 o leoedd gofal plant yng Nghymru.
- Mae 115,000 o blant 0-4 oed â rhieni sydd yn gweithio, ac felly yn debygol o fod yn defnyddio rhyw fath o ofal plant.
- Mae 70,000 o blant yng Nghymru sydd yn 3-4 oed, a tua 46,000 o'r rhain sydd yn gymwys am y Cynnig 30 Awr ar hyn o bryd.
- Dim ond 45,000 o leoedd gofal llawn (fyddai'n gallu cynnig 30 awr neu fwy o ofal yr wythnos ar hyn o bryd) sydd ar gael yng Nghymru.

[13] Mae'r mudiad Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG) wedi adleisio'r pryderon hyn ac wedi mynd mor bell â dweud bod Dechrau'n Deg 'yn milwrio'n erbyn ehangu addysg Cyfrwng Cymraeg'. Gweler ymateb RhAG i'r ymgynghoriad Ymchwiliad i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg: http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?id=179&RPID=1008375631&cp=yes

[14] Gall yr oriau hyn amrywio rhywfaint o un awdurdod lleol i'r llall. Mae rhai awdurdodau lleol yn cynnig 15 awr o addysg sylfaen feithrin yr wythnos, ac yn yr achos hwn bydd 15 awr ychwanegol o ofal plant yn cael ei ddarparu.

[15] Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth, *Y Capasiti gofal plant yng Nghymru* (Hydref 2017).

- Pe bai holl leoedd gofal llawn plant Cymru yn cael ei neilltuo i blant 3-4 oed sydd yn gymwys am y Cynnig 30 Awr, byddai dal angen rhagor o ddarpariaeth. Nid yw hyn yn cymryd i ystyriaeth bod 69,000 o blant dan 3 oed sydd â rhieni mewn gwaith yn debygol o lenwi rhywfaint o'r lleoedd, ac o bosibl fod plant hŷn am gymryd rhywfaint o'r lleoedd (ar ôl ysgol neu yn ystod y gwyliau o bosibl).
- Mae'n debyg nad yw nifer sylweddol o'r 46,000 o blant fydd yn gymwys am y Cynnig 30 Awr yn derbyn gofal plant ar hyn o bryd. Mae'n debygol iawn y bydd y mwyafrif o'r rhain yn dymuno cymryd mantais o'r gofal plant am ddim pan fydd y cynllun yn cael ei weithredu yn llawn.
- Mae'n debygol y bydd cynnydd am ofal plant mewn ardaloedd difreintiedig yn benodol, lle gallai'r cynnig alluogi rhieni i chwilio am waith heb orfod poeni am gostau gofal plant.

Mae ceisio amcangyfrif faint o ofal plant ychwanegol fydd ei angen yn sgil y Cynnig 30 Awr yn gymhleth ac yn amhendant. Mae adroddiad y Llywodraeth yn cynnwys cyfrifiadau manwl er mwyn ceisio mapio capasiti ac argaeledd, ac er bod yn rhaid trin y data hwn â gofal, mae'n saff dweud bod bwlch sylweddol rhwng y capasiti presennol a'r galw sy'n debyg o godi dros y blynyddoedd nesaf. Mae'r holl dystiolaeth yn awgrymu'n gryf bod diffyg lleoliadau, ac y bydd angen llawer mwy o leoedd gofal plant wrth weithredu'r cynllun ar draws Cymru.

## Integreiddio'r Cynnig 30 Awr â gweledigaeth 2050

Mae'r ffigyrau a'r darlun uchod yn nodi'r her gyffredinol sy'n debyg o godi yn sgil y Cynnig 30 Awr, ond nid oes unrhyw ystyriaeth o'r sefyllfa o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg, nac ychwaith yr heriau mwy penodol sy'n debyg o godi yng nghyd-destun cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Er bod y Llywodraeth wedi ymrwymo i greu 40 cylch meithrin newydd erbyn 2021, nid yw'r ymrwymiad hwn, ar ben ei hun, yn ddigon uchelgeisiol. Mae ystadegau'r Mudiad Meithrin[16] yn nodi mai 21 o blant ar gyfartaledd sydd ym mhob cylch meithrin ar draws Cymru. Yn seiliedig ar y cyfartaledd hwn, byddai 40 o gylchoedd newydd yn creu tua 900 o leoedd newydd cyfrwng Cymraeg. Er ei bod yn debyg byddai'r cylchoedd meithrin newydd yn cynnig mwy o leoedd na'r cyfartaledd hwn[17], mae adroddiad diweddar y Llywodraeth yn awgrymu bod angen degau o filoedd o leoedd newydd i ddiwallu'r galw a fydd yn debyg o godi yn sgil y Cynnig 30 Awr. Nid yw'n amlwg y bydd creu 40 o gylchoedd newydd erbyn 2021 yn gwella'r sefyllfa bresennol o ran y ganran sy'n cael gofal plant cyfrwng Cymraeg. Er bod cynlluniau canolog o'r fath yn rhan o'r ateb, mae'n amlwg bod angen cynllunio mwy manwl ac uchelgeisiol er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol a darparwyr gofal plant yn ysgwyddo rhywfaint o'r cyfrifoldeb am gynyddu'r darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae sawl cwestiwn pwysig y mae angen ei ateb os yw'r Llywodraeth o ddifri am weld gofal plant yn cyfrannu'n sylweddol at weledigaeth 2050. Mae amryw gwestiwn pwysig yma:

[16] Mudiad Meithrin, *Adroddiad Blynyddol 2015-16*.
[17] Mae rhan fwyaf o'r cylchoedd meithrin ar hyn o bryd yn ofal bore neu brynhawn, a bydd y Cynnig 30 Awr yn gofyn am ddarpariaeth gofal dydd llawn, fydd yn debyg o gynyddu'r niferoedd yn y cylchoedd Meithrin hyn.

- Pa fframwaith gellid ei mabwysiadu er mwyn sicrhau cydweithio effeithiol rhwng Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, a darparwyr gofal plant er mwyn sicrhau cynnydd yn narpariaeth cyfrwng Cymraeg?
- Sut y gellir defnyddio cynlluniau cyllido Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau cynnydd yn narpariaeth cyfrwng Cymraeg gofal plant? Mae'r Mudiad Meithrin wedi derbyn cyllid ychwanegol ar gyfer 2018/19 ac mae cwestiynau pwysig ynglŷn â sut yn union y dylid defnyddio'r cyllid hwn, a beth yn union fydd rôl Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol o ran y cynllunio hwn. Mae rhai awdurdodau lleol yn defnyddio grantiau gofal plant gan y Llywodraeth er mwyn ariannu'r Mudiad Meithrin yn eu hardal leol, tra bo awdurdodau eraill yn gweithredu mewn ffyrdd gwahanol. Nid oes llawer o fanylder hyd yn hyn ynglŷn â'r fframwaith a'r prosesau er mwyn rheoli'r buddsoddi a'r cynllunio ar lefel genedlaethol a lleol.
- Yn gysylltiedig â'r pwynt uchod, y Mudiad Meithrin yw'r darparwr gofal plant amlycaf cyfrwng Cymraeg yng Nghymru, a byddai'n fuddiol clywed am gynlluniau Llywodraeth Cymru o ran cyfraniad y Mudiad i'r cynllunio a darparu ar lefel genedlaethol a lleol. Mae'r Mudiad eisoes wedi cychwyn ar y gwaith o fapio sefyllfa pob cylch meithrin gydag ystyriaeth benodol i adnabod gallu'r cylchoedd i ymateb a darparu ar gyfer y Cynnig 30 Awr. Sut fydd hyn yn bwydo mewn i weithredoedd y Llywodraeth ac awdurdodau lleol penodol?
- Pa wybodaeth a data sydd ei angen er mwyn creu strategaeth effeithiol er mwyn cynyddu darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg. Mae adroddiad diweddar y Llywodraeth wedi darparu gwybodaeth am y capasiti cyffredinol, ond mae angen ystyried yr agenda ieithyddol yma hefyd.
- Ni ellir gwarchod nac ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg heb sicrhau cyflenwad digonol o staff sy'n meddu ar y sgiliau iaith priodol, yn ogystal â'r arbenigeddau cywir i weithio yn y sector. Er bod prosiectau ar gyfer cynyddu niferoedd staff cyfrwng Cymraeg sydd â chymwysterau yn y sector (er enghraifft y cynllun Cam wrth Gam) wedi bod yn llwyddiannus yn creu mwy o staff cymwys, mae nifer helaeth ohonynt yn gadael swyddi â'r cylchoedd meithrin a'r sector gofal plant oherwydd cyflogau isel o'u cymharu â chyflogau cymhorthyddion dosbarth yn y sector addysg gynradd.
- Mae angen ystyried sut i hybu a hwyluso darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg yn hytrach na dim ond ateb y galw.

I gloi, mae'r Llywodraeth wedi nodi fod cynyddu'r niferoedd sy'n derbyn gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol er mwyn cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae adroddiad diweddar y Llywodraeth yn dangos yn glir y bydd angen llawer mwy o ddarpariaeth gofal plant dros y blynyddoedd nesaf. Wrth ddarllen rhaglen waith 2017-2021 Cymraeg 2050 nid oes amheuaeth fod y Llywodraeth yn ymwybodol o bwysigrwydd gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar i weledigaeth 2050. Er hyn, nid yw'n eglur sut y mae'r Llywodraeth yn bwriadu troi ymrwymiadau cyffredinol i ddatblygu'r sector yn weithredoedd penodol fydd â thraweffaith ar lawr gwlad. Isod, ceir dau argymhelliad mwy penodol o sut gellid lliniaru'r heriau sydd wedi'u hamlinellu uchod, a sicrhau bod y potensial o integreiddio polisïau gofal plant a gweledigaeth 2050 yn dwyn ffrwyth.

## 3.2. Gofal Plant a Chynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSCAau)

**Gall Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSCAau) fod yn fframwaith hynod effeithiol er mwyn cydlynu gweithredoedd Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, a darparwyr gofal plant. Byddai cynnwys deilliant penodol yn y CSCAau ar gyfer twf yn y sector gofal plant ym mhob ardal yn ffordd o sicrhau bod strategaethau lleol gofal plant yn cyd-fynd â dyheadau a thargedau cenedlaethol y llywodraeth o ran darpariaeth Cymraeg. Byddai twf yn y sector hwn yn cyfrannu'n arwyddocaol at gynyddu niferoedd ar draws y sector addysg cyfrwng Cymraeg yn y tymor hir.**

Ers cyhoeddi'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn 2010, bu'n ofynnol i awdurdodau lleol baratoi Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru. Rhoddodd Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 sylfaen statudol i'r cynlluniau hynny. Mae gofyn i awdurdodau lleol gynllunio strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg sy'n cynnwys 7 deilliant penodol er mwyn cynyddu a gwella'r ddarpariaeth. Yn dilyn cryn dipyn o feirniadaeth ynglŷn â'r cynlluniau strategol, gofynnwyd i Aled Roberts gynnal adolygiad brys o'r gyfundrefn bresennol ar gyfer cynllunio addysg Gymraeg yng Nghymru ym mis Mawrth 2017. Mae adroddiad Aled Roberts, fel amryw o adroddiadau blaenorol,[18] yn feirniadol o gynlluniau rhai o'r awdurdodau lleol a hefyd o'r weithdrefn lywodraethol a deddfwriaethol gyffredinol. Un diffyg amlwg yn y cynlluniau yn ôl yr adroddiad yw nad oes deilliant ynghylch darpariaeth cyn-statudol.

Ar hyn o bryd, nid oes deilliant penodol sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu cynllun, targedau a meini prawf pendant ynglŷn â gofal plant cyfrwng Cymraeg. Er bod rhaglen waith 2017-2021 Cymraeg 2050 yn nodi y dylai CSGAau gynnwys cynlluniau ar gyfer 'gwella darpariaeth cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar', nid yw'n orfodol. O ganlyniad, prin yw'r sylw sy'n cael ei roi i ofal plant o fewn cynlluniau awdurdodau lleol ar y funud. Byddai ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnwys cynllun clir a phendant i gynyddu'r niferoedd sy'n cael gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg yn fanteisiol am ddau brif reswm.

1. Mae gan y CSCAau botensial hynod fel cyfrwng ar gyfer cydlynu gweithredoedd y Llywodraeth, yr awdurdodau lleol, a'r darparwyr. Byddai'r CSCAau yn darparu fframwaith effeithiol er mwyn i'r Llywodraeth sicrhau bod cynllunio a gweithredu lleol digonol yn digwydd sy'n cyd-fynd â dyheadau a thargedau'r Llywodraeth ar lefel genedlaethol. Er bod yr ADGPau eisoes yn gofyn i awdurdodau lleol gynllunio ar gyfer gofal plant, ac mae gofyn ystyried iaith y ddarpariaeth, nid oes unrhyw broses gymeradwyo i'r adroddiadau hyn. Mae angen i'r CSCAau gael eu cymeradwyo gan y Llywodraeth ac felly byddai modd sicrhau ansawdd y cynlluniau a byddai'r awdurdodau yn atebol i'r targedau fydd yn cael eu gosod. Byddai'r cynlluniau lleol hyn hefyd yn ffordd effeithiol o hybu a thargedu gwaith y Mudiad Meithrin fel y darparwyr

[18] Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, *Ymchwiliad i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg* (Rhagfyr 2015); Estyn, *Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol,* (Medi, 2016).

sydd yn debygol o ddatblygu'r mwyafrif o'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg newydd. Mae'n debyg y bydd y Llywodraeth yn disgwyl i'r cyllid ychwanegol sydd wedi ei neilltuo i'r Mudiad gael ei ddefnyddio er mwyn cyrraedd ei tharged o greu 40 cylch meithrin newydd erbyn 2021. Er mwyn i'r gwaith hwn gael yr effaith mwyaf posibl o ran creu siaradwyr Cymraeg newydd, mae'n hollbwysig bod yr awdurdodau lleol yn rhan o'r cynllunio hwn. Mae'r sefyllfa o ran darpariaeth Gymraeg yn amrywio'n sylweddol o un ardal i'r llall, ac mae gofynion gwahanol rhwng ac o fewn ardaloedd gwahanol. Does dim un datrysiad cynhwysfawr sydd am weithio ym mhob man, a'r awdurdodau lleol sydd â'r wybodaeth berthnasol er mwyn llunio cynllun a strategaeth a fyddai'n gweddu'r ardal leol. Petai CSCAau awdurdodau lleol yn amlinellu cynllun amlwg ar gyfer twf yn narpariaeth gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn yr ardal; bod perthynas strategol gref rhwng yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin; a bod y Mudiad yn derbyn cefnogaeth a buddsoddiad gan y Llywodraeth, yna byddai disgwyl gweld datblygiadau arwyddocaol yn y niferoedd o blant sy'n derbyn gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai diwygio'r CSCAau yn unol ag argymhelliad Aled Roberts felly yn un ffordd gadarnhaol o fynd i'r afael â'r heriau a nodwyd yn 3.1 ac yn gam gweithredu pendant a phenodol ar ran Llywodraeth Cymru.

2. Byddai cynnwys deilliant penodol ynglŷn â gofal plant cyfrwng Cymraeg yn y CSCAau â'r potensial i greu twf sylweddol mewn niferoedd ar draws y sector addysg cyfrwng Cymraeg. Mae deilliant cyntaf y cynlluniau presennol yn ymwneud â thwf yn nifer y plant 7 oed sy'n cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. O ystyried y dystiolaeth sy'n dangos y cyfraddau trosiant rhwng gofal plant ac addysg gynradd cyfrwng Cymraeg, a hefyd y gydberthynas glir rhwng pa mor gynnar mewn bywyd mae rhywun yn dysgu'r Gymraeg a'u rhuglder ar ddiwedd y daith, mae'n syndod nad oes deilliant penodol ar gyfer cynyddu nifer y plant sy'n cael gofal ac addysg blynyddoedd cynnar drwy'r Gymraeg. Mae hyn yn arbennig o wir o ystyried fod problem sylfaenol â'r deilliannau presennol sydd yn ran o fframwaith y CSGAau. Nid yw mwyafrif yr awdurdodau lleol yn gosod targedau ar gyfer cyfraddau plant 7 oed fydd yn cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ond yn hytrach yn nodi rhagamcanion yn seiliedig ar y niferoedd sydd yn Bl2, Bl1 a dosbarth derbyn ar draws yr ardal. Hynny yw, mae awdurdodau lleol yn gwybod beth fydd ffigyrau'r plant 7 oed fydd yn cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg am y 3 blynedd nesaf (sef hyd y cynlluniau presennol) oherwydd mae'r plant hyn eisoes yn y system addysg gyfrwng Gymraeg. Er mwyn gosod targedau twf yn hytrach nag adrodd ffeithiau, mae naill ai angen gofyn am gynlluniau mwy hirdymor neu ofyn i'r awdurdodau lleol osod targedau twf i'r blynyddoedd cyn-ysgol. Byddai twf yn y sector cyn-ysgol yn dylanwadu'n arwyddocaol ar niferoedd plant 7 oed fyddai mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn y blynyddoedd sydd i ddilyn. Byddai sicrhau niferoedd uchel ar draws y gyfundrefn addysg statudol cyfrwng Cymraeg yn seiliedig ar ddilyniant a throsglwyddo llwyddiannus o un cyfnod addysg i'r llall.

## 3.3. Casglu a recordio data

**Er mwyn llunio strategaethau cenedlaethol a lleol effeithiol, ac er mwyn gwerthuso effaith a llwyddiant y strategaethau hyn yn y dyfodol, mae'n hanfodol cael data dilys a dibynadwy. Mae angen i Lywodraeth Cymru arwain y gwaith o ddiwygio'r ffyrdd o gasglu a rhannu data am ofal plant, er mwyn sicrhau bod cynlluniau a strategaethau lleol a chenedlaethol wedi'u llunio ar sail gwybodaeth y gellid ymddiried ynddi.**

Mae adroddiad diweddar adran Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth[19] yn drawiadol ac yn dangos potensial data fel ffordd o lywio strategaethau Llywodraeth Cymru. Yn anffodus, ni roddwyd unrhyw ystyriaeth i ddarpariaeth Cymraeg yn yr adroddiad hwn, ac mae'r data sydd yn bodoli ar ddarpariaeth Gymraeg yn dlawd iawn o'i gymharu. Fel sydd wedi'i drafod eisoes (gweler 2.2 uchod) nid oes fframwaith effeithiol ar waith ar gyfer casglu gwybodaeth ddibynadwy a dilys am sefyllfa gofal plant cyfrwng Cymraeg yng Nghymru. Mae argymhelliad Aled Roberts ynglŷn â chynnwys deilliant penodol yn y CSGAau ar gyfer cynyddu darpariaeth cyn-statudol cyfrwng Cymraeg yn dibynnu ar y gallu i gasglu a chyflwyno data dibynadwy a dilys am y sector hwn. Heb ddata dibynadwy a dilys, nid oes sail tystiolaeth gref er mwyn llywio penderfyniadau a strategaeth Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol o ran ariannu a chynllunio gwelliannau i'r ddarpariaeth. Nid yw chwaith yn bosibl asesu effeithiolrwydd unrhyw strategaethau sydd wedi'u gweithredu. Mae'r ffaith nad yw'r sector hwn dan reolaeth uniongyrchol Llywodraeth Cymru, a'i fod hefyd yn cynnwys ystod eang o wasanaethau gwahanol, yn gwneud y dasg hon yn un cymhleth.

Dyma grynodeb o'r prif broblemau sydd angen sylw:

**Dibynadwyedd:** Mae problemau yn bodoli â chysondeb y dulliau o gasglu a chyflwyno data o fewn a rhwng awdurdodau lleol. Bwriad yr ADGPau yw bod pob awdurdod lleol yn darparu darlun eglur o'r sector gofal plant er mwyn cynllunio yn effeithiol ar gyfer y dyfodol. Mae gofyn i awdurdodau lleol ddefnyddio data hunanasesiad yr AGGCC er mwyn cwblhau eu hasesiadau digonolrwydd gofal plant. Un broblem yn y cyswllt hwn yw cyfraddau cwblhau'r hunanasesiad sy'n golygu bod y darlun yn un anghyflawn. Problem fwy sylfaenol yw bod awdurdodau lleol yn aml yn ategu'r data hwn gan AGGCC â'u data eu hunain. Gall hyn gynnwys data ar ffurf arolygon neu ddata meintiol y mae'r awdurdod lleol wedi'u casglu eu hunain. Mae'r ffyrdd y mae'r awdurdodau lleol yn casglu'r data ychwanegol hwn, yn ei ddehongli, ac yn ei gyflwyno, yn amrywio o un adroddiad i'r llall, a hefyd o un awdurdod i'r llall. Nid yw data AGGCC a'r data sy'n cael ei gyflwyno yn yr ADGPau yn cyfateb i'w gilydd (hyd yn oed wrth ystyried y cyfraddau ymateb i'r hunanasesiadau); mae sawl awdurdod lleol yn anwybyddu ystadegau am iaith y ddarpariaeth yn gyfan gwbl; mae rhai awdurdodau lleol yn darparu ystadegau iaith y ddarpariaeth gofal plant yn un ffigwr cyfunol, tra bo eraill yn darparu ystadegau am iaith yn ôl math y ddarpariaeth (gwarchodwyr, meithrinfeydd ayyb) yn unig. Mae hyn yn gwneud y broses o ddilyn tueddiadau dros amser, ac o gymharu awdurdodau gwahanol, yn un cymhleth, aneglur ac mewn rhai achosion yn amhosibl.

[19] Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth, *Y Capasiti gofal plant yng Nghymru* (Hydref 2017).

Er bod proses newydd wedi'i chyflwyno yn 2016 mewn ymgais i ennyn dull mwy cyson a safonol o lunio'r ADGPau, mae adolygu'r ADGPau sydd newydd eu cyflwyno ar gyfer 2017-2022 yn profi bod problemau sylfaenol yn parhau. Er enghraifft, dim ond data 13 allan o 22 awdurdod lleol y gellid eu defnyddio yn ffigur 4 (uchod), naill ai oherwydd nad yw'r data ar gael, neu fod y data yn cael ei gyflwyno mewn ffordd sy'n ei gwneud yn amhosibl i'w ddefnyddio. Os nad yw'r dull o gasglu'r data yn gyson a dibynadwy, yna ni fydd yr wybodaeth yn ddilys ac ni fydd modd llunio na gwerthuso unrhyw gynlluniau a strategaethau ar gyfer cynyddu a gwella'r ddarpariaeth yn y sector hwn mewn ffordd ystyrlon.

**Dilysrwydd:** mater hynod o bwysig wrth sicrhau ansawdd unrhyw ddata sy'n cael eu casglu am batrymau iaith darpariaeth gofal plant yw'r broblem o gategoreiddio. Mae Canllawiau Statudol Gofal Plant yn diffinio 4 categori iaith[20]:


a) Lleoliad cyfrwng Cymraeg
b) Lleoliad cyfrwng Cymraeg a Saesneg
c) Lleoliad cyfrwng Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog
d) Lleoliad cyfrwng Saesneg

Dyma'r categorïau sy'n cael eu defnyddio ym mwyafrif yr ADGPau sydd newydd eu cyflwyno gan awdurdodau lleol yn 2017. Fel y gwelir yn ffigwr 2 a 3, fodd bynnag, mae data mwyaf diweddar AGGCC (25 Medi 2017), fel ei data blaenorol, yn defnyddio tri chategori yn unig. Mae'r sefyllfa yn hynod aneglur o ystyried mai data'r AGGCC sydd i fod yn sail i'r AGDPau yn y lle cyntaf.[21]


Y tu hwnt i broblemau amlwg â chysondeb y categorïau a tharddiad y data, mae cwestiynau ynglŷn â dilysrwydd y broses o hunanasesu iaith y ddarpariaeth. Mae ymchwil a gynhaliwyd gan Arad ar ran Comisiynydd y Gymraeg yn nodi bod camddehongli yn digwydd o'r ddwy ochr, â lleoliadau'n disgrifio eu hunain fel lleoliad cyfrwng Cymraeg a Saesneg pan mai dim ond llond llaw o eiriau Cymraeg sydd gan un aelod staff, a lleoliadau eraill sydd i bob pwrpas yn rhai cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn 'ofni' disgrifio eu hunain felly gan eu bod yn anghyfforddus â gallu profi bod yr holl waith papur a'r ohebiaeth ar gael yn Gymraeg.[22] Yn ogystal â hyn, ymddengys bod defnyddio categorïau ieithyddol gwahanol yn gallu effeithio'r broses o hunanasesu iaith y ddarpariaeth yn sylweddol. Er enghraifft, gwelir bod gwahaniaethau sylweddol rhwng ffigur 3 a 4 uchod ac isod mae cymariaethau manylach mewn ardaloedd penodol:

[20] Llywodraeth Cymru, *Canllawiau Statudol Gofal Plant* (2016), t. 33.
[21] Mae pob AGDPau a ddadansoddwyd yn defnyddio 4 categori iaith ac yn nodi bod y data wedi dod o HAG yr AGGCC. Nododd yr AGGCC mewn gohebiaeth ddiweddar â'r Comisiynydd fod yr HAG yn cynnwys 3 chategori iaith ac nad ydynt yn ymwybodol o unrhyw ddata sydd â 4 categori iaith.
[22] Arad, *Y Ddarpariaeth Gofal Cyfrwng Cymraeg ar Gyfer Plant Cyn Oed Ysgol* (Mawrth, 2017).


Ffigur 6: Cymharu data gan yr AGGCC (2017) â'r data sydd wedi'i gasglu o ADGP 2017-22 Sir Ddinbych.




Ffigur 7: Cymharu data gan yr AGGCC (2017) â'r data sydd wedi'i gasglu o ADGP 2017-22 Dinas a Sir Abertawe.



Ffigur 8: Cymharu data gan yr AGGCC (2017) â'r data sydd wedi'i gasglu o ADGP 2017-22 Gwynedd.




Mae'r data uchod yn dangos bod cwestiynau pwysig i'w hateb ynglŷn â sut mae'r data yn cael ei gasglu, sut mae'n cael ei ddehongli, a pha gasgliadau sy'n dilyn. Hynny yw, byddai dod i'r casgliad fod Dinas a Sir Abertawe wedi symud o sefyllfa lle'r oedd 95% o ofal plant yn Saesneg yn unig i sefyllfa lle mae 60% o'r ddarpariaeth yn ddwyieithog yn hynod gamarweiniol. O edrych ar y data, mae'n deg dod i'r casgliad fod tua 90% o ddarpariaeth gofal plant Abertawe i bob pwrpas yn Saesneg. Mae'n bwysig bod yn glir am hyn o ran disgrifio sefyllfa'r iaith yn yr ardal, o ran darparu gwybodaeth i rieni am y ddarpariaeth sydd ar gael, ac yn fwy na dim o ran sail tystiolaeth ddilys i werthuso unrhyw strategaethau blaenorol ac i gynllunio rhai newydd. Mae'n amhosibl osgoi'r problemau uchod yn gyfan gwbl, ond mae'n bwysig ystyried a cheisio lleihau effaith y materion hyn ar ansawdd a chywirdeb y data.

Mae'n debyg mai diwygio'r fframwaith sydd eisoes ar waith yw'r ffordd fwyaf effeithiol o symud ymlaen. Yr AGGCC sy'n debygol o ddarparu'r data mwyaf cyflawn ar gyfer y sector, a dylid gweithio gyda'r corff er mwyn gwella ansawdd a chyfraddau cwblhau'r hunanasesiad. Mae'n bosibl y gellid defnyddio data penodol gan awdurdodau lleol er mwyn ategu data AGGCC, ond mae angen cysondeb ynglŷn â sut y gwneir hyn a sut y'i cyflwynir. Mae'r Llywodraeth eisoes wedi ceisio symud rhywfaint i'r cyfeiriad hwn, ond mae'n amlwg fod angen safoni a rheoli'r broses ymhellach. O edrych ar adroddiad diweddar adran Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth[23] ymddengys bod gan y AGGCC a'r Llywodraeth ystod eang o fanylion a data am ofal plant yng Nghymru. Maent hefyd â'r arbenigedd ymchwil er mwyn

[23] Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth, *Y Capasiti gofal plant yng Nghymru* (Hydref 2017).

casglu, dehongli a chyflwyno'r data hwn mewn ffordd effeithiol. O ystyried hyn, nid yw'n eglur pam fod angen i 22 awdurdod lleol gael y data hwn gan yr AGGCC ar ffurf crai, ac yna ei ddehongli a'i gyflwyno eu hunain yn yr ADGAau. Ymddengys y gallai Llywodraeth Cymru a'r AGGCC ddarparu data ar sefyllfa gofal plant o ran yr iaith Gymraeg, ar lefel genedlaethol a lleol. Gellid edrych ar y data hwn law yn llaw â'r adroddiad sydd eisoes wedi'i gyhoeddi ar gapasiti ac argaeledd darpariaeth gofal plant yng Nghymru. Mae'n amlwg fod gan y Llywodraeth y feddalwedd a'r data yn barod, a mater o gyfnewid neu ychwanegu newidynnau fyddai (er enghraifft, pa ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog sy'n bodoli a ble mae wedi'i leoli, manylion am ysgolion Cymraeg yr ardal, ble fydd y galw am ofal plant yn debygol o gynyddu, a dwysedd poblogaeth 0-4 oed yr ardal). Byddai data o safon yn sail tystiolaeth gadarn i awdurdodau lleol allu cynllunio a gwerthuso deilliant cyntaf eu CSGAau fydd yn ymwneud â chynyddu cyfraddau plant sydd mewn gofal plant cyfrwng Cymraeg. Byddai hefyd yn galluogi'r awdurdodau lleol a'r Llywodraeth fesur llwyddiant y strategaethau hyn o ran cynyddu darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**
Children, Young People and Education Committee

Kirsty Williams AM
Cabinet Secretary for Education

30 November 2017

Dear Kirsty

Thank you for your letter of 31 October, and for the further information you have provided in relation to the views of Universities on the Welsh Baccalaureate (Welsh Bacc).

Having considered this additional information, together with the evidence you provided at Committee on 18 October 2017, the Committee has some continued concerns relating to the Welsh Bacc, and we would be grateful for your response on the following issues.

<u>The status of the Welsh Baccalaureate at post-16</u>

On 18 October, you told the Committee that the Welsh Government (WG) 'encourages universal adoption and delivery of the Welsh Baccalaureate'. The Committee is, however, still not clear how exactly you would do that. You confirmed at that meeting that it is not statutory for all learners to undertake the Welsh Bacc, but that WG 'actively' encourages the take-up of the Welsh Bacc post-16 'where appropriate'.

- **Could you provide further explanation of how the WG actively encourages the universal take-up of the Welsh Bacc at post-16?**
- **Does the post-16 planning and funding system provide any financial incentives to schools and colleges to maximise take-up?**
- **Your official (at the meeting on 18 October) referred to documentation that uses the term 'where appropriate' – is this official guidance and is it publicly available? If not can the Committee receive a copy?**

The WG has published guidance, *The post-16 Welsh Baccalaureate: recording and measuring outcomes*, which contains the following targets set by WG for schools and colleges on adoption of the Welsh Bacc:



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

*2015/16 Maintain 2014/15 percentage or 30%, whichever is the higher*
*2016/17 Maintain 2014/15 percentage or 50%, whichever is the higher*
*2017/18 Maintain 2014/15 percentage or 70%, whichever is the higher*
*2018/19 90%*
*2019/20 100%*

Again, on 18 October, you told the Committee that it would be 'massively inconceivable' for a school to force a learner to do a qualification when this would jeopardise their chances of fulfilling their potential. However, from the targets listed above, the direction of travel appears to be one of giving the head teacher less discretion than at present.

- **Can you provide details on how these targets are monitored and enforced, and what the implications are for schools and colleges if they don't meet the 100% target by 2019/20?**
- **How does this tally with the guidance that learners should only be entered for the Welsh Bacc post-16 'where appropriate' and the discretion given to the head teacher?**
- **What guidance is given to head teachers on how they should apply such discretion?**

The views of universities

Although the Committee appreciates the additional information provided, your letter of 31 October appeared to be focussed more on the regard universities have for the Welsh Bacc in their admission procedures rather than its status and whether it is compulsory or not.

We welcome the fact that you have written to all university Vice Chancellors to seek assurance that their institutions would accept the reformed Welsh Baccalaureate as part of their future entry requirements or as part of an alternative offer, although it is not clear whether this was UK wide. You have stated that you 'expect' all UK universities to accept the Welsh Bacc. However, the Committee is concerned that this does not provide an assurance that Welsh students are not disadvantaged by doing the Welsh Bacc.

The Committee very much welcomes your assurance that Universities, including Oxford and Cambridge, value the Welsh Bacc and are taking an increasingly flexible approach to recognising it in their offers, but we remain concerned that some universities and courses do not count it towards their entry requirements.

- **Can you confirm whether your letter to Vice Chancellors included those all across the UK. Can you also confirm how many responded, and provide an analysis or summary of their responses?**
- **What analysis has the WG done of whether different schools (departments) within universities have different approaches with regard to the Welsh Bacc?**
- **Can you confirm what flexibility and discretion is given to post-16 students who want to apply for courses that do not count the Welsh Bacc – would they still have to do the Welsh Bacc? Is this an example of the circumstances where head teacher discretion would come into play?**

Finally, you confirm in your letter that Qualifications Wales will be publishing a review of the Welsh Bacc in the autumn term.

- **Can you confirm what terms of reference have been set for this? Did the WG request this review or did Qualifications Wales itself decide to undertake the review?**

I look forward to your response regarding these matters.

Yours sincerely,

**Lynne Neagle AC / AM**
**Cadeirydd / Chair**

**Vaughan Gething AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA – P/VG/3792/17

Lynne Neagle AM
Cadeirydd
Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Government.Committee.Business@gov.wales

28 Tachwedd 2017

Annwyl Lynne

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 13 Hydref ac am y gwaith yr ydych chi a'r Pwyllgor, a holl gyfranogwyr yr ymchwiliad, wedi'i wneud er mwyn cynhyrchu'r adroddiad hwn.

Yn unol â'ch cais, gweler isod fy ymateb i argymhellion y pwyllgor:

**Argymhelliad 1. Bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu, ac yn darparu cyllid cenedlaethol ar gyfer, rhwydwaith clinigol a reolir dan arweiniad clinigwyr. Dylai'r rhwydwaith gael yr adnoddau angenrheidiol gan gynnwys amser uwch staff clinigol a gweinyddol, a chyllideb hyfforddi. Bydd hyn yn ei alluogi i roi arweinyddiaeth, cydlyniant ac arbenigedd cenedlaethol ar gyfer datblygu ymhellach y gwasanaethau a'r gweithlu iechyd meddwl amenedigol, gan gynnwys mewn perthynas â safonau ansawdd, llwybrau gofal, cymwyseddau proffesiynol ac adnoddau hyfforddi. Dylai'r rhwydwaith clinigol a reolir barhau â dull gweithredu amlddisgyblaethol y Gymuned Ymarfer gyfredol i annog a datblygu cydweithio a chyfathrebu effeithiol ymysg yr holl weithwyr proffesiynol perthnasol.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae gwasanaethau amenedigol cymunedol ar gael ym mhob ardal yng Nghymru yn awr, ac mae gwaith Grŵp Llywio Iechyd Meddwl Amenedigol Cymru Gyfan a'r gymuned ymarfer wedi gwneud cyfraniad hollbwysig at ddatblygu'r cysylltiadau a'r adnoddau angenrheidiol. Rwy'n cefnogi rôl ganolog y ddau grŵp yn y gwaith o ddatblygu'r agenda amenedigol yng Nghymru.

Fodd bynnag, rwy'n cytuno â'r angen i sefydlu rhwydwaith clinigol a reolir, wedi'i arwain gan glinigwyr, i gefnogi ymhellach ddatblygiad gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol yng

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nghymru.  Bydd y Rhwydwaith yn dod â'r rolau arweinyddiaeth glinigol a datblygiad strategol ynghyd mewn un corff.

Bydd y gwaith o sefydlu'r Rhwydwaith Clinigol a Reolir yn dechrau yn awr, gyda'r nod o recriwtio i'r rôl arweinyddiaeth yn y flwyddyn ariannol hon.

**Argymhelliad 2. Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau mai un o dasgau cyntaf y rhwydwaith clinigol a reolir newydd yw cytuno ar fesuriadau perfformiad seiliedig ar ganlyniadau ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol a'u cyhoeddi. Unwaith y bydd y rhain wedi'u datblygu, dylai Llywodraeth Cymru gasglu a chyhoeddi data cenedlaethol a lleol ar y mesurau, gyda darpariaeth gwasanaethau, gweithgarwch a gwelliannau yn cael eu monitro gan gorff cyhoeddus cysylltiedig penodol (e.e. Iechyd Cyhoeddus Cymru) fel y gellir nodi a gweithredu mwy o liferi ar gyfer gwella.**

**Argymhelliad 4. Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau, unwaith y bydd y gwaith brys i bennu lefel y galw am wasanaethau uned mamau a babanod wedi'i gwblhau yn unol â chais Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, bod dulliau casglu a monitro data mwy cadarn yn cael eu cynnal ar draws y llwybr amenedigol er mwyn deall lefel barhaus yr angen a'r galw am gymorth ac i ddarparu sail dystiolaeth gadarnach ar gyfer datblygu gwasanaethau yn y dyfodol.**

**Ymateb (2 a 4):  Derbyn**

Mae safonau a chanlyniadau is-grŵp Grŵp Llywio Iechyd Meddwl Amenedigol Cymru Gyfan (AWPMHSG) yn datblygu fframwaith integredig ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol yng Nghymru.  Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r fframwaith hwn yn 2018, a bydd yn cynnwys dulliau mesur canlyniadau ansoddol a meintiol.

Bydd set ddata graidd newydd Cymru gyfan ar iechyd meddwl ac anableddau dysgu yn ymgorffori gwybodaeth amenedigol.  Bydd y systemau TG, sy'n cael eu creu yn awr, yn gallu sicrhau bod trefniadau cadarn ar gyfer casglu data a monitro ar gael yn y dyfodol. Bydd hyn yn hollbwysig er mwyn deall yr angen a'r galw am wasanaethau amenedigol, oherwydd mae ymwybyddiaeth yn cynyddu ac mae stigma a gwahaniaethu yn dod yn llai cyffredin.

**Argymhelliad 3. Bod y gwaith y gofynnwyd amdano gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru i nodi lefel y galw am wasanaethau uned mamau a babanod yn cael ei gwblhau fel mater o frys. Rydym yn argymell bod y gwaith hwn yn cael ei gwblhau yn ystod y cyfnod 6 wythnos y byddem yn disgwyl i Lywodraeth Cymru ddarparu ymateb i'r adroddiad hwn a dylai fod yn brif ystyriaeth wrth benderfynu sut i ddyrannu cyllid ar gyfer y gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol cleifion mewnol arbenigol a gyhoeddwyd fel rhan o gytundeb y gyllideb ar 01 Hydref 2017.**

**Argymhelliad 6. Bod Llywodraeth Cymru, yn seiliedig ar y dystiolaeth a dderbyniwyd, yn sefydlu uned mamau a babanod yn ne Cymru, wedi'i chomisiynu a'i chyllido yn genedlaethol i ddarparu gwasanaethau Cymru gyfan, sydd â staff digonol o ran niferoedd a disgyblaethau, ac sy'n gweithredu fel canolfan ganolog o wybodaeth a dysgu seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer iechyd meddwl amenedigol yng Nghymru.**

**Ymateb (3 a 6): Derbyn**

Mae'r dystiolaeth bresennol yn awgrymu bod angen gofal cleifion mewnol yn ne Cymru, er na fyddai galw digonol i ddarparu uned yng ngogledd Cymru yn unig, fel sy'n cael ei argymell yn eich adroddiad. Fel yr ydych wedi cydnabod, rydym eisoes wedi ymrwymo i ddarparu gofal i gleifion mewnol yng Nghymru o fewn y Gyllideb ddrafft ar gyfer 2018-19 a 2019-20.

Mae is-grŵp Haen 4 AWPMHSG wrthi'n costio'r opsiynau i'w hystyried, ac yn ystyried y pryderon a godwyd gan Gydbwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC). Bydd yr opsiynau'n cael eu cyflwyno i'r Cydbwyllgor ym mis Ionawr.

Wrth gyflwyno'r opsiynau ar gyfer gofal cleifion mewnol, mae'r ffactorau pwysig i'w hystyried yn cynnwys lleoliad y gwasanaeth a'r pellter i deuluoedd ei deithio. Mae uned unigol i gleifion mewnol yn debygol o fod yn un o'r opsiynau hyn. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn disgwyl gweld opsiynau ar gyfer gofal mwy lleol i gleifion mewnol, gyda phellteroedd llai rhwng mamau a babanod a'u teuluoedd. Mae'n hollbwysig bod y model newydd ar gyfer cleifion mewnol yn darparu gofal rhagorol, gan sicrhau ar yr un pryd ei fod yn gynaliadwy yn y tymor hwy a'i fod yn diwallu anghenion ein poblogaeth gyfan.

**Argymhelliad 5. Bod y rhwydwaith clinigol a reolir newydd (gweler argymhelliad 1) yn rhoi blaenoriaeth i gynhyrchu canllawiau i weithwyr proffesiynol a gwybodaeth i gleifion, yn seiliedig ar dystiolaeth, ynghylch sut gall cyfnod mewn uned mamau a babanod fod o fudd i famau, babanod a'u teuluoedd fel y gellir gwneud penderfyniadau mwy gwybodus am opsiynau triniaeth.**

**Ymateb: Derbyn**

Rydym wedi gofyn i'r Gymuned Ymarfer bresennol ddechrau ar y gwaith o gynhyrchu canllawiau i weithwyr proffesiynol a gwybodaeth i gleifion er mwyn cefnogi dull mwy gwybodus o wneud penderfyniadau am opsiynau triniaethau.

**Argymhelliad 7. Bod Llywodraeth Cymru, yng ngoleuni'r ffaith na fydd uned mamau a babanod sydd wedi'i lleoli yn ne Cymru o reidrwydd yn addas i famau a theuluoedd yng nghanolbarth a gogledd Cymru, yn ymgysylltu fel mater o frys â GIG Lloegr i drafod opsiynau ar gyfer creu canolfan yn y gogledd-ddwyrain a allai wasanaethu poblogaethau o boptu'r ffin. Dylai Llywodraeth Cymru roi mwy o sicrwydd mewn perthynas â gallu GIG Cymru i gomisiynu gwelyau mewn unedau mamau a babanod mewn canolfannau yn Lloegr lle pennir bod angen clinigol amdanynt.**

**Ymateb: Derbyn**

Rwyf wedi gofyn i WHSSC weithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ystyried yr opsiynau yng Ngogledd Cymru, gan gynnwys yr argymhelliad hwn. Bydd y canlyniadau yn sail i ddatblygiad cyffredinol y gofal a roddir i gleifion mewnol yng Nghymru, a fydd yn ystyried anghenion mamau a theuluoedd ar hyd a lled Cymru. Cyflwynir yr opsiynau ar gyfer y ddarpariaeth yng ngogledd Cymru i'r Cydbwyllgor ym mis Ionawr, fel rhan o ddatblygiad cyffredinol gofal i gleifion mewnol ar hyd a lled Cymru.

**Argymhelliad 8. Bod Llywodraeth Cymru'n darparu cynllun gweithredu clir i sicrhau bod canolfannau sy'n darparu gwelyau mewn unedau mamau a babanod, pa le bynnag y bônt (yng Nghymru neu yn Lloegr) wedi'u hintegreiddio'n agos â thimau iechyd meddwl amenedigol cymunedol arbenigol a'u bod yn cael eu rheoli, eu cydgysylltu a'u hariannu ar sail genedlaethol, Cymru gyfan i sicrhau eu bod yn cael**

**eu defnyddio'n effeithlon a bod mynediad teg iddynt, yn enwedig gan fod eu hangen ar frys mewn sefyllfaoedd argyfwng yn aml.**

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn cytuno y bydd cysylltu gwasanaethau cymunedol amenedigol lleol gyda thimau eraill ar draws Cymru yn hollbwysig wrth ddatblygu'r ddarpariaeth newydd i gleifion mewnol, er mwyn cefnogi trosglwyddiad esmwyth o ran camu i fyny neu gamu i lawr rhwng gofal cleifion mewnol a gofal cymunedol.

Bydd y Rhwydwaith Clinigol a Reolir yn cynnwys cynrychiolaeth o dîm cymunedol pob bwrdd iechyd, fel sy'n digwydd gyda'r Gymuned Ymarfer ar hyn o bryd, a bydd yn ymgysylltu'n llawn wrth i ofal i gleifion mewnol gael ei ddatblygu yng Nghymru.

**Argymhelliad 9. Ar sail dadl "buddsoddi er mwyn arbed" ac yn dilyn dadansoddiad o'r gwerthusiad o wasanaethau sydd ar droed, a chanlyniadau ymchwil Mind-NSPCC-Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl, bod Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid ychwanegol i'r Byrddau Iechyd er mwyn gallu mynd i'r afael ag amrywiadau yn well fel bod modd datblygu gwasanaethau a gwella ansawdd trwy ehangu'r timau presennol. Er mwyn sicrhau bod yr holl wasanaethau iechyd amenedigol cymunedol yn cyrraedd yr un safon â'r gorau, dylai'r dull a fabwysiedir gan Lywodraeth Cymru i ddyrannu cyllid ychwanegol anelu'n bennaf at yr angen i fynd i'r afael â'r gwahaniaeth mewn darpariaeth rhwng Byrddau Iechyd yng Nghymru.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Bydd y gwerthusiad arfaethedig yn darparu mwy o eglurder o ran sut mae'r gwasanaethau cymunedol yn diwallu'r galw ar hyn o bryd. Mae'n hollbwysig bod mynediad cyfartal ar gael i wasanaethau ar draws Cymru gyfan a bod y byrddau iechyd yn gallu darparu gwasanaethau cymunedol sy'n diwallu anghenion eu poblogaeth leol.

Rydym wedi cynnwys £20 miliwn ychwanegol bob blwyddyn ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn y gyllideb ddrafft ar gyfer y ddwy flynedd nesaf. Mae hyn ar ben yr £20 miliwn ychwanegol sydd wedi'i chynnwys yn y gyllideb eleni (2017-19). Rydym yn disgwyl i fyrddau iechyd ddefnyddio eu cyllideb iechyd meddwl uwch i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth gwasanaeth.

Bydd y Rhwydwaith Clinigol a Reolir yn gweithio gyda'r byrddau iechyd i bennu safonau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae'r broses yn galluogi'r byrddau iechyd i ddatblygu eu gwasanaethau er mwyn cyrraedd y safonau hyn.

**Argymhelliad 10. Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y gwaith sy'n mynd rhagddo i wella mynediad at therapïau seicolegol ar gyfer menywod amenedigol (a dynion lle bo angen) yn cael ei flaenoriaethu o ystyried y cysylltiad sydd wedi'i sefydlu rhwng salwch amenedigol ac iechyd a datblygiad plentyn. Dylid rhoi blaenoriaeth i sicrhau bod menywod beichiog a menywod sydd newydd roi genedigaeth sydd â phroblemau iechyd meddwl yn gallu cael therapïau siarad neu wasanaethau seicolegol (ar lefel gofal sylfaenol ac eilaidd) yn gyflym ac yn amserol, gydag amseroedd aros yn cael eu monitro a'u cyhoeddi. Gofynnwn am ddiweddariad ar gynnydd mewn perthynas â gwella mynediad at therapïau seicolegol ar gyfer menywod amenedigol (a dynion lle bo angen) o fewn 12 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn.**

**Ymateb: Derbyn**

Rwy'n derbyn pwysigrwydd sicrhau bod gan fenywod beichiog a menywod ôl-enedigol fynediad cyflym ac amserol i ymyriadau seicolegol. Mae Matrics Cymru[1] - Canllaw ar gyfer Cyflenwi Therapi Seicolegol ar sail Tystiolaeth yng Nghymru yn cynnwys y dystiolaeth ar ddarparu ymyriadau seicolegol yn ystod y cyfnod amenedigol. Bydd cynllun gweithredu Cymru gyfan ar gyfer darparu therapïau seicolegol i gefnogi gweithredu Matrics Cymru yn cael ei ddatblygu yn awr a bydd yn cael ei gyhoeddi yn 2018.

Er bod timau cymunedol presennol yn darparu mathau gwahanol o gymorth, gan gynnwys therapi galwedigaethol, seicolegwyr clinigol arbenigol a seicolegwyr cynorthwyol, byddaf yn gofyn i fy swyddogion gael cyngor gan yr is-grŵp safonau a chanlyniadau ynglŷn â chasglu gwybodaeth ar wahân ar amseroldeb yr ymyriadau, yn unol ag argymhellion NICE ym Matrics Cymru, sef cynnig asesiad o fewn pythefnos i atgyfeiriad a chynnig ymyriadau o fewn mis i'r asesiad. Mae hyn yn cyd-fynd yn gyffredinol â'r targedau amseroedd aros yr ydym eisoes wedi'u pennu ar gyfer darparu ymyriadau therapiwtig sy'n cael eu cynnig gan wasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol.

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru hefyd yn cefnogi gwaith ymchwil penodol i ymarfer sy'n seiliedig ar ymchwil yn y cyfnod amenedigol. Byddwn yn sicrhau bod tystiolaeth newydd yn cael ei hymgorffori yn y gwasanaethau a ddarperir ac wrth ddiwygio Matrics Cymru.

Bydd y Rhwydwaith Gofal a Reolir yn pennu agenda strategol ac yn nodi canlyniadau gydag amserlenni cyflawni priodol.

**Argymhelliad 11. Bod Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod pob Bwrdd Iechyd yn buddsoddi mewn ymrwymo'n llawn i safonau ansawdd Coleg Brenhinol y Seiciatryddion ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol er mwyn gwireddu manteision adolygiad cymheiriaid, dysgu a rennir a meincnodi.**

**Ymateb: Derbyn**

Rwy'n cefnogi argymhellion AWPMHSG yn llwyr y dylai byrddau iechyd hwyluso eu gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol drwy gofrestru i safonau ansawdd gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol Coleg Brenhinol y Seiciatryddion. Bydd angen gwneud hyn yn unol â deddfwriaeth benodol ar gyfer Cymru, megis y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol.

**Argymhelliad 12. Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y llwybr gofal clinigol Cymru gyfan newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol yn gofyn am gysondeb o ran canlyniadau (gan gynnwys cyfnodau atgyfeirio ac amseroedd aros) ond yn galluogi Byrddau Iechyd i gadw lefel yr hyblygrwydd sydd ei angen o ran dulliau cyflwyno er mwyn rheoli a diwallu anghenion lleol. Dylai datblygu a gweithredu llwybr gofal clinigol Cymru gyfan integredig sy'n seiliedig ar dystiolaeth o fewn y 12 mis nesaf (gyda rhai gwahaniaethau lleol) fod yn flaenoriaeth. Dylai'r llwybr helpu i ddarparu gwasanaethau integredig a chymell ymyrraeth gynnar ac ymagweddau cyfannol tuag at ofal a gwella.**

**Ymateb: Derbyn**

---

1 http://www.1000livesplus.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1011/Matrics%20Cymru%20%28CM%20design%20-%20DRAFT%2015%29.pdf

Bydd llwybr a safonau integredig newydd Cymru gyfan yn cefnogi'r broses o gyflawni canlyniadau cyson i fenywod a theuluoedd ym mhob rhan o Gymru. Bydd y dulliau o ddarparu gwasanaethau o'r fath yn ystyried y galw ac anghenion lleol.

Mae'n bwysig sicrhau bod yr amserlenni ar gyfer cyflwyno'r llwybr yn realistig ac yn gyflawnadwy. Cyflwynir amserlenni priodol gan y Rhwydwaith Gofal a Reolir newydd.

**Argymhelliad 13. Bod Llywodraeth Cymru a Byrddau Iechyd yn gweithio gyda'i gilydd i godi ymwybyddiaeth o faterion iechyd meddwl amenedigol ymysg y cyhoedd a gweithwyr iechyd proffesiynol. Dylai hyn fod ar ffurf ymgyrch addysg gyhoeddus i wella dealltwriaeth o'r symptomau a'r ffactorau risg sy'n gysylltiedig â salwch amenedigol a dylai annog normaleiddio'r drafodaeth am les emosiynol er mwyn lleihau stigma ac ofn datgelu.**

**Ymateb: Gwrthod**

Er bod gwella gwybodaeth a sgiliau gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd yn ddymunol, nid yw'r argymhelliad hwn yn un a fyddai'n cael ei gefnogi gan dystiolaeth iechyd y cyhoedd, oherwydd nid ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth heb ffocws na tharged yw'r ffordd fwyaf effeithiol o newid ymddygiad grwpiau allweddol.

Yn hytrach, byddwn yn ymchwilio i ba ddulliau addysgu'r cyhoedd a fyddai'n fwyaf effeithiol ar gyfer codi ymwybyddiaeth, heb achosi effeithiau niweidiol anfwriadol megis gorbryder neu achosi i bobl anwybyddu negeseuon iechyd cyhoeddus eraill. Mae cyswllt gofal iechyd rheolaidd gan fydwragedd ac ymwelwyr iechyd eisoes yn pwysleisio pwysigrwydd hybu hyder wrth fagu eu plant a llesiant emosiynol yn ystod beichiogrwydd ac yn y cyfnod ôl-enedigol.

**Argymhelliad 14. Bod Llywodraeth Cymru yn adolygu gwybodaeth a ddarperir mewn pecynnau cynenedigol ac ôl-enedigol safonol a roddir i fenywod yng Nghymru i sicrhau ei bod yn cynnwys y manylion angenrheidiol am les emosiynol, iechyd meddwl amenedigol a lle i ofyn am help a chymorth.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae is-grŵp safonau a chanlyniadau'r AWPMHSG, sydd â chynrychiolwyr o bob bwrdd iechyd yng Nghymru, mewn cydweithrediad ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn ystyried y dull mwyaf effeithiol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, o wella ymwybyddiaeth menywod o bwysigrwydd llesiant meddwl, yn ogystal â materion penodol sy'n ymwneud ag iechyd meddwl amenedigol. Bydd hyn yn cynnwys ystyried a yw'n bosibl cynnwys gwybodaeth bellach yn y pecynnau cynenedigol ac ôl-enedigol.

**Argymhelliad 15. Bod Llywodraeth Cymru yn dylunio fframwaith cenedlaethol ar gyfer dosbarthiadau cynenedigol, yn ei ddarparu i bob Bwrdd Iechyd a'i gwneud hi'n ofynnol iddynt wneud mwy i annog presenoldeb mewn dosbarthiadau. Dylai'r fframwaith gynnwys sgyrsiau am les emosiynol a realiti rhianta er mwyn chwalu'r stigma sylweddol a niweidiol ynghylch salwch meddwl amenedigol.**

**Ymateb: Derbyn**

Comisiynodd Llywodraeth Cymru y grŵp Bydwragedd Ymgynghorol yn ddiweddar i ymchwilio i brofiad menywod o feichiogrwydd a genedigaeth yng Nghymru, a lansiwyd gennyf ar 9 Hydref 2017. Roedd yr arolwg yn gwerthuso safbwyntiau menywod am y

gwasanaethau cynenedigol a sut y gall y gwasanaethau presennol baratoi menywod ar gyfer esgor, genedigaeth a magu plant.

Roedd y canfyddiadau hyn yn cynnwys yr angen am fynediad gwell i ddosbarthiadau sy'n eu paratoi'n ddigonol ar gyfer yr enedigaeth a magu plant. Mae rhaglen i ddatblygu gweledigaeth strategol ar gyfer gwasanaethau mamolaeth yn y dyfodol yn cael ei datblygu yn awr. Rwy'n cytuno â'r angen i gyfuno'r llif gwaith addysg cynenedigol er mwyn cynhyrchu fframwaith cenedlaethol ar ymwybyddiaeth o ofal iechyd amenedigol.

**Argymhelliad 16. Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r cyrff perthnasol i sicrhau bod iechyd meddwl amenedigol yn cael ei gynnwys yn hyfforddiant cyn-gofrestru a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) yr holl weithwyr iechyd proffesiynol a chlinigwyr sy'n debygol o ddod ar draws menywod amenedigol. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod sylw i iechyd meddwl amenedigol fel pwnc ar ei ben ei hun ym maes bydwreigiaeth ac addysg ymwelwyr iechyd yn cael ei wella ac yn rhan o'r rhaglen nyrsio iechyd meddwl cyn cofrestru. Mae angen i gwricwlwm craidd Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol ar gyfer hyfforddiant ymarfer cyffredinol baratoi meddygon teulu yn well i ymdrin â phroblemau iechyd meddwl amenedigol hefyd.**

**Ymateb: Cytuno mewn egwyddor**

Mae is-grŵp hyfforddiant a chymhwysedd yr AWPMHSG yn datblygu fframwaith dysgu a datblygu iechyd meddwl amenedigol Cymru. Disgwylir iddo gael ei gyhoeddi yn 2018.

Mae iechyd meddwl amenedigol wedi'i gynnwys yn awr yn hyfforddiant cyn-cofrestru Bydwragedd ar draws Cymru. Mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn adolygu'r fframwaith addysg ar gyfer 'Bydwragedd y Dyfodol' a byddaf yn gofyn i gynrychiolwyr o Gymru sicrhau bod hyn yn cael ei argymell ar gyfer y dyfodol.

Disgwylir i dimau amenedigol mewn byrddau iechyd ddarparu hyfforddiant a gwybodaeth ar ôl cofrestru i bob aelod o staff sy'n gysylltiedig â gofal menywod a theuluoedd yn ystod beichiogrwydd ac ar ôl genedigaeth.

Mae Meddygon Teulu yn gweithio ochr yn ochr â bydwragedd ac ymwelwyr iechyd i fonitro a rheoli anghenion iechyd meddwl menywod beichiog a mamau newydd. Bydd hyfforddiant pellach yn cael ei ddarparu i feddygon teulu drwy RCGP Cymru, gyda'r nod o gynyddu ymwybyddiaeth o anhwylderau iechyd meddwl amenedigol a chyflwyno'r dulliau gorau o'u rheoli. Hwylusir yr ymgysylltiad â'r gymuned meddygon teulu drwy'r AWPMHSG.

**Argymhelliad 17. Bod Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â gwaith i ddatblygu a chyflwyno strategaeth ar gyfer y gweithlu/fframwaith cymhwysedd er mwyn meithrin capasiti a chymhwysedd ar draws y gweithlu arbenigol, gan edrych ar brofiad yn Rhwydweithiau Clinigol a Reolir Lloegr a'r Alban sy'n ysgwyddo cyfrifoldeb am hyfforddiant fel rhan o'u rôl arweinyddiaeth a chydlynu.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae is-grŵp AWPMHSG eisoes yn datblygu fframwaith hyfforddiant a chymhwysedd integredig i sicrhau bod pob aelod o staff sy'n dod i gysylltiad â menywod a'u teuluoedd yn ystod y cyfnod amenedigol yn meddu ar wybodaeth a sgiliau digonol i gynnig asesiadau ar sail tystiolaeth ac, yn ôl yr angen, ymyriadau. Dylai'r gwaith hwn gael ei gwblhau yn 2018.

**Argymhelliad 18. Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod gan bob Bwrdd Iechyd fydwraig sy'n arbenigo mewn iechyd meddwl amenedigol er mwyn annog cyfathrebu gwell rhwng gweithwyr proffesiynol fel y gall menywod sy'n sâl gael y gofal a'r cymorth gorau sydd eu hangen arnynt.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Yn yr un modd â'r ymateb i Argymhelliad 9, rwy'n aros am ganfyddiadau'r gwerthusiad, a fydd yn darparu darlun cliriach o'r ffordd y mae'r model presennol yn diwallu'r galw am wasanaethau ar hyd a lled Cymru. Bydd hyn yn cynnwys sut mae gwasanaethau mewn ardaloedd â dwyster poblogaeth is yn gweithio gyda gwasanaethau lleol i gyflawni anghenion mamau a babanod newydd.

**Argymhelliad 19. Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod pob Bwrdd Iechyd yn gweithio tuag at sefyllfa lle mae pob menyw yn cael perthynas barhaus gyda naill ai bydwraig neu ymwelydd iechyd. Er na fydd hi'n bosibl cyfarfod â'r un unigolyn ar bob achlysur, dylai pob Bwrdd Iechyd fynd ati i glustnodi adnoddau er mwyn ceisio sicrhau parhad gofal, gydag arweinydd a enwir yn gyfrifol am ofal ôl-enedigol pob menyw.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu'r grŵp Bydwragedd Ymgynghorol i ymchwilio i brofiadau menywod o feichiogrwydd a genedigaeth yng Nghymru, a lansiwyd gennyf ar 9 Hydref. Roedd yr arolwg yn ceisio casglu a gwerthuso safbwyntiau menywod am wasanaethau cynenedigol a sut y gall y ddarpariaeth bresennol baratoi menywod ar gyfer esgor, genedigaeth a magu plant. Un o ganfyddiadau allweddol yr arolwg oedd bod menywod yn dymuno datblygu perthynas gyda bydwragedd gwybodus, trugarog a charedig. Mae hyn nid yn unig yn gwneud i fenywod deimlo'n ddiogel, mae hefyd yn eu galluogi i ymddiried yn y wybodaeth a'r cyngor a roddir iddynt.

Pan fydd menyw yn dioddef o salwch amenedigol, byddai'r fydwraig a enwir a'r tîm iechyd meddwl amenedigol lleol yn cydweithio i sicrhau cynllun gofal unigol a pharhad gofal.

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod pob bwrdd iechyd yn cyflogi'r nifer cywir o fydwragedd yn eu gwasanaethau. Mae offeryn y gweithly Birthrate Plus yn cael ei ddefnyddio ym mhob bwrdd iechyd, ac mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â chymarebau'r gweithlu. Mae hyn yn cael ei fonitro yng nghyfarfodydd blynyddol byrddau perfformiad mamolaeth ac mae'n galluogi i fydwraig a enwir gael ei neilltuo i bob menyw feichiog.

Mae digwyddiad cydweithredol yn cael ei gynnal gyda rhanddeiliaid allweddol yn y gwasanaethau mamolaeth ym mis Tachwedd 2017 i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer y gwasanaethau mamolaeth yn y dyfodol, a fydd yn mynd i'r afael â'r negeseuon allweddol o'r Arolwg o Fenywod.

**Argymhelliad 20. Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Byrddau Iechyd i sicrhau bod lefelau priodol o ddarpariaeth y trydydd sector yn cael eu hariannu'n briodol, yn enwedig lle gwneir atgyfeiriadau gan ac i wasanaethau statudol. Dylid creu cyfeiriadur o wasanaethau'r trydydd sector i gynyddu ymwybyddiaeth eu bod ar gael a dylai darparwyr perthnasol yn y trydydd sector gael eu gwahodd fel mater o drefn i fynychu hyfforddiant ar y cyd â gwasanaethau statudol.**

**Ymateb: Derbyn**

Disgwylir i fyrddau iechyd gynllunio i ddarparu gwasanaethau iechyd sy'n diwallu anghenion eu poblogaethau unigol. Gallant ddewis darparu'r gwasanaethau hyn mewn partneriaeth â sefydliadau'r trydydd sector neu'r sector annibynnol, neu gomisiynu gwasanaethau penodol ohonynt.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'i phartneriaid i gydlynu'r gwaith o ddatblygu un cyfeiriadur 'rhithwir' o wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector a'r sector annibynnol. Bwriedir i'r cyfeiriadur hwn gael ei ddefnyddio gan y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol a bydd yn ategu'r wybodaeth, cyngor a'r gwasanaeth cynorthwyol newydd ar gyfer awdurdodau lleol, yn ogystal â'r gwasanaeth ffôn a gwefan 111. Bydd yn cynnwys yr amrediad eang o wasanaethau sydd ar gael mewn cymunedau lleol ac yn esbonio sut y gall pobl gael mynediad i'r gofal a'r cymorth hwn.

**Argymhelliad 21. Bod Llywodraeth Cymru'n amlinellu, o fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn, sut mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r diffyg cymorth seicolegol ar gyfer rhieni babanod newyddenedigol neu rieni sy'n mynd trwy brofedigaeth a bodloni'r safonau, a pha gamau y bydd yn eu cymryd os na sicrheir cydymffurfiaeth â'r safonau. Dylid cyhoeddi'r trydydd rhifyn o'r safonau newyddenedigol fel mater o flaenoriaeth.**

**Ymateb: Derbyn**

Bydd y safonau newyddenedigol diwygiedig yn cael eu cyhoeddi gan y Rhwydwaith Newyddenedigol a'u cyflwyno ar draws pob bwrdd iechyd yn y flwyddyn newydd. Mae'r safonau'n amlinellu'r angen i bob uned sicrhau bod cymorth seicolegol digonol ar gael i rieni, brodyr a chwiorydd a staff. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i fyrddau iechyd gydweithio, gyda chefnogaeth gan WHSSC a'r Rhwydwaith Newyddenedigol, i sicrhau gwasanaethau newyddenedigol o ansawdd uchel, yn unol â'r safonau proffesiynol.

Yn dilyn Ymchwiliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Farw-enedigaethau (2012), mae gwasanaeth profedigaeth Bydwreigiaeth ar gael ym mhob bwrdd iechyd yn awr. Mae'r gwasanaeth yn darparu cefnogaeth i fenywod a theuluoedd sydd wedi cael profedigaeth drwy farw-enedigaeth neu farwolaeth baban newydd-anedig. Mae'r byrddau iechyd hefyd yn gweithio gyda sectorau'r trydydd sector megis Cymdeithas Marw-enedigaethau a Marwolaethau Newyddanedigion (SANDS) i wella amgylcheddau gofal, darparu cefnogaeth a hwyluso hyfforddiant proffesiynol.

**Argymhelliad 22. Bod Llywodraeth Cymru'n ystyried datblygu rôl ymwelydd iechyd sy'n arbenigo mewn iechyd amenedigol a babanod yng Nghymru i gysylltu â CAMHS a gwasanaethau iechyd meddwl babanod a gweithio mewn ffordd amlddisgyblaethol gyda'r gwasanaethau hynny, gan ddarparu cymorth arbenigol i famau, tadau a'u plant, a rhoi hyfforddiant a gwasanaeth ymgynghori arbenigol i'r gweithlu blynyddoedd cynnar ac ymwelwyr iechyd ehangach, yn enwedig mewn perthynas â materion yn ymwneud ag ymlyniad a bondio.**

**Ymateb: Gwrthod**

Y byrddau iechyd sy'n gyfrifol am benderfynu ar eu hanghenion staffio o'u dyraniad presennol ar gyfer darparu gwasanaethau cymunedol.

Rwyf wedi gofyn i Grŵp Llywio Cymru Gyfan ar Iechyd Meddwl Amenedigol gasglu gwybodaeth ar sut mae'r timau cymunedol yn ymgysylltu ar hyn o bryd â'r gwasanaethau perthnasol ac i ystyried pa waith sydd angen ei wneud er mwyn gwella cydweithrediad.

Mae'r Rhaglen Plant Iach Cymru yn cynnwys amrediad cyson o fesurau atal ac ymyrraeth gynnar ar sail tystiolaeth, yn ogystal â chyngor ac arweiniad i gefnogi rhieni wrth iddynt fagu plant. Mae'r rhaglen yn cynnig asesiad rheolaidd gan Ymwelwyr Iechyd o ymlyniad a bondio er mwyn cefnogi perthnasau cadarnhaol rhwng y rhieni a'r plant a hybu iechyd a gwydnwch emosiynol mamau a theuluoedd.

**Argymhelliad 23. Rydym yn cydnabod manteision bwydo ar y fron yn arbennig o ran bondio ac ymlyniad ac yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu gwaith pellach i edrych yn fanylach ar effaith bwydo ar iechyd meddwl amenedigol a throi hwn yn ganllawiau i weithwyr proffesiynol a'r cyhoedd.**

**Ymateb: Gwrthod**

Er ein bod yn cydnabod manteision bwydo ar y fron, yn arbennig o ran bondio ac ymlyniad, mae tystiolaeth wrthgyferbyniol ar ei effaith a'r natur achosol mewn perthynas â salwch meddwl amenedigol. Mae ffrwd gwaith ar y gweill, y gofynnais yn benodol amdani, sy'n cynnal adolygiad o fwydo ar y fron a chefnogaeth yn ystod beichiogrwydd a'r blynyddoedd cynnar. Gwneir hyn mewn cydweithrediad â phob bwrdd iechyd, cyfeillion cefnogol, Iechyd Cyhoeddus Cymru a swyddogion Llywodraeth Cymru. Disgwylir i adroddiad ar yr argymhellion ar gyfer y dyfodol gael ei ryddhau ddechrau 2018 a bydd yn ymgorffori anghenion pob menyw a theulu.

**Argymhelliad 24. Bod Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod gan y Byrddau Iechyd safonau, cyngor a chanllawiau sefydledig ar feddyginiaethau seicolegol yn ystod beichiogrwydd a bwydo ar y fron, a sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu.**

**Ymateb: Gwrthod**

Er na ellir derbyn yr argymhelliad hwn ar ei ffurf bresennol, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu i sicrhau bod byrddau iechyd yn sicrhau bod rhagnodwyr yn ymwybodol o'r cyngor arbenigol sydd ar gael ar draws y DU ar ddefnyddio meddyginiaethau yn ystod beichiogrwydd a bwydo ar y fron.

Darperir cyngor ar ragnodi meddyginiaethau yn ystod beichiogrwydd a bwydo ar y fron yn y datganiad ar nodweddion cynhyrchion a gynhyrchir gan ddeiliaid awdurdodaeth marchnata meddyginiaethau. Hefyd, mae Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain yn darparu cyngor annibynnol ar ragnodi yn ystod beichiogrwydd ac wrth fwydo ar y fron.

Bydd tystiolaeth annigonol ar gael ar y rhan fwyaf o feddyginiaethau i ddarparu sicrwydd ar ddiogelwch rhagnodi yn ystod beichiogrwydd neu wrth fwydo ar y fron. Er mai ychydig iawn o feddyginiaethau sydd wedi'u profi yn derfynol yn deratogenig i fenywod, nid oes unrhyw feddyginiaeth yn ddiogel y tu hwnt i bob amheuaeth yn ystod beichiogrwydd cynnar. O ystyried hyn, byddai'n afrealistig i fyrddau iechyd sefydlu cyngor ac arweiniad ar a ddylid defnyddio meddyginiaethau penodol ai peidio yn yr amgylchiadau hyn.

Yn ystod beichiogrwydd, dylid ond rhagnodi meddyginiaeth os ystyrir y byddai'r budd i'r fam yn fwy na'r risg i'r ffetws, a dylid osgoi pob cyffur os yn bosibl yn ystod y tri mis cyntaf. Dylid rhagnodi meddyginiaethau sydd wedi'u defnyddio'n helaeth yn ystod beichiogrwydd, ac sy'n

ymddangos yn ddiogel fel arfer, yn hytrach na chyffuriau newydd neu gyffuriau heb eu profi; dylid defnyddio'r dogn effeithiol lleiaf.

Yn y DU, mae'r profiad a'r arbenigedd ar ddiogelwch meddyginiaethau wedi'i gasglu ynghyd yng Ngwasanaeth Gwybodaeth Teratoleg (UKTIS) sy'n cael ei gomisiynu gan Public Health England ar ran Adrannau Iechyd y DU.

Mae UKTIS yn darparu gwasanaeth cenedlaethol ar bob agwedd ar wenwyndra cyffuriau a chemegau yn ystod beichiogrwydd. Darperir yr wybodaeth i weithwyr iechyd proffesiynol drwy wasanaeth gwybodaeth dros y ffôn ac ar-lein. Mae mynediad i wasanaeth gwybodaeth dros y ffôn ac adnoddau ar-lein ar gael am ddim i adrannau, unedau a phractisau'r GIG yn y DU.

Yn achos bwydo ar y fron, nid oes tystiolaeth ddigonol ar gael am nifer o feddyginiaethau i ddarparu canllaw a'r cyngor yw mai dim ond meddyginiaethau hanfodol y dylid eu rhoi i fam pan fydd yn bwydo ei babi ar y fron. Mae cyngor pellach ar gael ar ddefnyddio meddyginiaethau wrth fwydo ar y fron gan UK Drugs in Lactation Advisory Service (UKDILAS) sydd ar gael drwy'r DU gyfan gan Ganolfan Gwybodaeth am Feddyginiaethau Trent a Gorllewin Canolbarth Lloegr. Mae cyngor ar ddefnyddio meddyginiaethau penodol a grwpiau o feddyginiaethau wrth fwydo ar y fron ar gael yn: https://www.sps.nhs.uk/home/about-sps/. Mae cyngor pellach ar gael gan UKDILAS drwy gyfeirio ceisiadau i wasanaethau gwybodaeth am feddyginiaethau byrddau iechyd lleol.

**Argymhelliad 25. Bod Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod yr holl waith o gynllunio'r gweithlu ar gyfer darparu gwasanaeth iechyd meddwl amenedigol yn ystyried anghenion Cymraeg y boblogaeth ac yn darparu ar eu cyfer.**

**Ymateb: Derbyn**

Disgwylir i fyrddau iechyd ystyried anghenion ieithyddol eu poblogaeth leol wrth gynllunio gwasanaethau. Strategaeth Llywodraeth Cymru yw cryfhau gwasanaethau Cymraeg ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol. Mae *Mwy na Geiriau...*, yn ceisio sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn derbyn gwasanaethau yn eu mamiaith. O dan Fesur y Gymraeg, mae gan y Gymraeg statws swyddogol, sy'n golygu na ddylai dderbyn triniaeth lai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru.

Byddwn yn disgwyl i'r Rhwydwaith Gofal a Reolir newydd ystyried sut mae'r ddarpariaeth bresennol yn cyflawni anghenion iaith Gymraeg y boblogaeth fel rhan o'i waith.

**Argymhelliad 26. Bod Llywodraeth Cymru yn ei gwneud hi'n ofynnol i Fyrddau Iechyd adrodd ar i ba raddau y mae eu timau iechyd meddwl amenedigol yn ymgysylltu â gwasanaethau eraill ac yn gweithio ar y cyd â nhw – gwasanaethau fel CAMHS, Unedau Dibyniaeth Cymunedol a thimau iechyd meddwl gofal sylfaenol ac eilaidd.**

**Ymateb: Derbyn**

Fel yn fy ymateb i Argymhelliad 22, rwyf wedi gofyn i'r AWPMHSG gasglu gwybodaeth ar sut mae'r timau cymunedol yn ymgysylltu yn awr â'r gwasanaethau perthnasol ac i ystyried pa waith sydd angen ei wneud i wella cydweithrediad.

Fel rhan o'r gofynion yn y *Fframwaith Gwasanaeth ar gyfer Trin Pobl â Phroblem Iechyd Meddwl a Sylweddau yr Un Pryd*, a gyhoeddwyd yn 2015, byddwn hefyd yn disgwyl protocol ar y cyd clir a llwybr integredig rhwng y gwasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau. Disgwylir hefyd i'r gwasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau


gael eu teilwra i gyflawni anghenion eu poblogaeth leol (a fydd yn cynnwys menywod beichiog). Mae'r cynnydd ar weithredu'r fframwaith hwn yn cael ei fonitro drwy drefniadau presennol yn strategaethau *'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl'* a *'Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed'* Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 27. Bod Llywodraeth Cymru'n gwneud rhagor o waith ar y cysylltiad rhwng anghydraddoldebau iechyd ac iechyd meddwl amenedigol, gan ganolbwyntio'n arbennig ar y mecanweithiau gorau ar gyfer canfod problemau'n gynnar a thrin y poblogaethau hynny sydd â'r angen mwyaf.**

**Ymateb: Derbyn**

Bydd cais ar y cyd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru Llywodraeth Cymru am ymchwil i ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn y cyfnod amenedigol yn cynnwys data ar sut mae gwasanaethau yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Bydd fframwaith integredig Cymru gyfan hefyd yn cynnwys cyfeiriad penodol at yr angen i wneud addasiadau rhesymol i sicrhau mynediad cyfartal i'r rhai â nodweddion gwarchodedig.

Yr eiddoch yn gywir



**Vaughan Gething AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services